Partneriaethau Tirwedd

Grantiau rhwng £250,000 a £2 filiwn

Arweiniad

cronfa dreftadaeth y loteri
heritage lottery fund

Mehefin 2008

Croeso

cronfa dreftadaeth y loteri
heritage lottery fund

Sefydlwyd Cronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) ym 1994 i ddosbarthu arian sy'n cael ei godi gan y Loteri Genedlaethol i brosiectau treftadaeth ledled y DU. Yn ein 12 mlynedd gyntaf, gwnaethom ddyfarnu dros £4 biliwn mewn grantiau i fwy na 26,000 o brosiectau, o fuddsoddi sawl miliwn o bunnoedd mewn safleoedd ac adeiladau adnabyddus i grantiau bach sy'n gwneud gwahaniaeth mawr i grwpiau cymunedol.

Bydd treftadaeth yn un o achosion da'r Loteri Genedlaethol hyd o leiaf 2019. Bydd gennym £1.9 biliwn i'w fuddsoddi yn ystod y cyfnod 2008–2019, a bydd ein dyfarniadau'n parhau i sicrhau bod pobl yn gallu cefnogi, rhannu a mwynhau eu treftadaeth yn y dyfodol.

Ein nodau strategol yw:

- Helpu pobl i ddysgu am eu treftadaeth eu hunain a threftadaeth pobl eraill.
- Diogelu treftadaeth amrywiol y DU er mwyn i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol ei phrofi a'i mwynhau.
- Helpu mwy o bobl, ac ystod ehangach o bobl, i gymryd rhan weithgar mewn treftadaeth a gwneud penderfyniadau yn ei chylch.

Y Rhaglen Partneriaethau Tirwedd

Partneriaethau Tirwedd yw ein rhaglen grantiau sy'n cynnig grantiau rhwng £250,000 a £2 filiwn i gynlluniau a arweinir gan bartneriaethau o ddiddordebau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n anelu at ddiogelu ardaloedd o gymeriad tirwedd arbennig ledled y Deyrnas Unedig (ac eithrio Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw).

Mae'r deunyddiau cais yn cynnwys:

- ffurflen holi cyn ymgeisio;
- yr arweiniad hwn ar gyfer rhaglen grant Partneriaethau Tirwedd;
- nodiadau i'ch helpu i lenwi ffurflen gais y rownd gyntaf (nodiadau cymorth);
- ffurflen gais rownd gyntaf;
- datganiad (y mae'n rhaid ichi ei lofnodi a'i ddychwelyd inni yn y post gyda'ch cais).
- arweiniad ar sut i gwblhau'r cyflwyniad ail rownd - Cynllun Gweithredu Gwarchod y Dirwedd (CGGD).

Cysylltwch â ni

Argymhellwn eich bod yn defnyddio'r ffurflen holi cyn ymgeisio i ddweud wrthym am eich prosiect cyn bwrw ymlaen â chais llawn. Byddwn yn rhoi gwybod ichi a yw'n debygol o fodloni ein blaenoriaethau am ariannu ac yn rhoi cyngor ichi ar yr hyn y mae angen ichi ei wneud i wneud eich cais.

Dylech anfon eich ffurflen holi cyn ymgeisio a'ch cais llawn i mewn ar-lein drwy ein gwefan. Fodd bynnag, dylech gysylltu â'ch swyddfa rhanbarth neu wlad:

- os oes gennych unrhyw anghenion cyfathrebu penodol;
- os oes angen gwybodaeth arnoch mewn ieithoedd neu fformatau eraill;
- os byddai'n well gennych anfon eich ffurflen mewn fformat arall; neu
- os oes angen ychydig o gymorth arnoch i lenwi'r ffurflen.

Sut i gysylltu â ni

Ffôn:	029 2034 3413
Ffôn testun:	020 7591 6255
Text direct:	18001 020 7591 6000
E-bost:	**cymru@hlf.org.uk**

Gallwch gael gwybod am ein rhaglenni ariannu eraill drwy gysylltu â ni neu fynd i'n gwefan ar **www.hlf.org.uk**.

Mae'r holl arweiniad a'r dogfennau eraill y cyfeirir atynt yn y deunyddiau cais i'w gweld ar ein gwefan.

Edrychwn ymlaen at gael eich cais.

Awarding funds from
The National Lottery®

Yn dyfarnu arian
Y Loteri Genedlaethol

Rhestr termau

Ymgyfarwyddwch â'r termau hyn a'u defnyddio yn eich ffurflen gais rownd gyntaf a'ch cyflwyniad ail rownd i CDL.

Tirwedd	Ardal, fel y canfyddir gan bobl, y mae ei chymeriad yn ganlyniad ffactorau naturiol a/neu ddynol yn gweithredu ac yn rhyngweithio.
Partneriaethau Tirwedd (PT)	Rhaglen grant Cronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer gwarchod a mwynhau ardaloedd o gymeriad tirwedd arbennig ledled y Deyrnas Unedig.
Partneriaeth	Grŵp o sefydliadau sy'n dod at ei gilydd i gynllunio a chyflawni Cynllun PT. Gall y `partneriaid' fod yn sefydliad a sefydlwyd yn ffurfiol neu wedi'u cysylltu â'i gilydd at ddiben cyffredin y cynllun hwn drwy gytundeb ffurfiol.
Bwrdd PT	Unigolion a enwyd gan y sefydliadau partner sydd ag awdurdod gan y sefydliadau hyn i gynghori ar gyflawni PT a rheoli'r gronfa PT. Bydd y sefydliad sy'n ymgeisio, sef grantî a phartner arwain y dyfodol, fel arfer yn enwi cadeirydd y bwrdd PT.
Partner Arwain	Os nad yw eich partneriaeth yn sefydliad a sefydlwyd yn ffurfiol, bydd angen i un o'ch partneriaid weithredu fel partner neu ymgeisydd arwain ar ran gweddill y bartneriaeth. Bydd yn gyfrifol am weinyddu'r grant a geir. Sefydlir y trefniant hwn drwy gytundeb partneriaeth.
Cynllun PT	Yr enw a roir i'r rhaglenni gwaith a phrosiectau cyffredinol i gyd a gynigiwch yn yr ardal PT.
Ardal PT	Ardal ddiffiniadwy o dir sydd â chymeriad arbennig sy'n cael ei nodi gan y Bwrdd PT, ac rydym wedi cytuno ei bod yn addas ar gyfer Cynllun PT.
Rhaglen PT	Pecyn o waith neu weithgareddau â thema gydag amcanion arbennig a mesuradwy sy'n cyfateb i ganlyniadau'r PT. Gyda'i gilydd, mae rhaglenni'r PT yn cyflawni nodau Cynllun Gweithredu Gwarchod y Dirwedd.
Prosiectau PT	Eitemau unigol o waith a gweithgareddau y gellir eu nodi a'u costio. Mae nifer o brosiectau PT wedi'u grwpio mewn perthynas â chanlyniadau'r PT yn gwneud rhaglen PT gyda'i gilydd.
Asesiad o Gymeriad Tirwedd	Mae hyn yn disgrifio, mewn geiriau a lluniau, yr hyn sy'n gwneud ardal yn rhan nodedig (gwahanol neu arbennig) o'n treftadaeth tirwedd yn y DU, yr hyn sy'n werthfawr a pham.

Cynllun Gweithredu Gwarchod y Dirwedd (CGGD)	Y ddogfen a gyflwynwch yn yr ail rownd sy'n tynnu ynghyd yr holl wybodaeth a gasglwyd yn ystod y datblygiad, sy'n dadansoddi beth yw anghenion y dirwedd a'r cymunedau, ac sy'n nodi prosiectau priodol sy'n bodloni pedwar canlyniad y rhaglen PT. Mae'r cynllun hwn hefyd yn rhoi gwybod sut bydd hyn yn cael ei gyflawni, gan gynnwys staffio, amserlenni a chostau. Gweler ein harweiniad ar wahân ar Gynlluniau Gweithredu Gwarchod y Dirwedd.
Swyddog PT	Y sawl sy'n gyfrifol am reoli a chyflawni'r Cynllun PT o ddydd i ddydd. Mae'n adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd PT ac yn rheoli staff eraill y PT ac ymgynghorwyr.
Cronfa gyffredin	Gwerth cyfanswm y cyfraniadau ariannol (arian a heblaw arian) sydd ar gael i gyflawni'r Cynllun PT sy'n cael eu casglu ynghyd mewn un gronfa.
Grantiau trydydd parti	Gall fod angen gwneud gwaith ar dir sy'n eiddo preifat neu a reolir yn breifat. Caiff y PT dalu am y gwaith hwn drwy roi grantiau trydydd parti. Er mwyn sicrhau bod yr asedau a'r buddion hyn yn cael eu cynnal am 10 mlynedd o leiaf, rhaid sicrhau hyn drwy gytundeb trydydd parti.

Cynnwys

	Rhif y Dudalen
Trosolwg	**1**
Ynglŷn â Phartneriaethau Tirwedd	**1**
Cyflwyniad	**2**
• Canlyniadau Partneriaeth Tirwedd	2
Pwy sy'n gallu ymgeisio	**2**
• Y Bartneriaeth	2
Nodweddion cynllun Partneriaeth Tirwedd	**4**
• Asesiad o gymeriad tirwedd	4
• Ardal Partneriaeth Tirwedd	5
• Eich gweledigaeth	5
• Maint ac effaith	5
• Y cynllun	6
• Strwythur cynllun Partneriaeth Tirwedd	6
• Siart llif Partneriaeth Tirwedd	7
Beth rydyn ni'n ei ariannu	**8**
• Rhaglenni a phrosiectau	8
• Adeiladau newydd a gwarchod ac addasu adeiladau hanesyddol o dan y rhaglen Partneriaethau Tirwedd	9
• Beth nad ydym yn ei ariannu	10
• Cronfa gyffredin y Bartneriaeth Tirwedd	10
• Ariannu gwaith ar asedau sy'n eiddo preifat drwy grantiau trydydd parti	11
Ystyriaethau eraill wrth gynllunio eich cynllun	**12**
• Prynu nwyddau, gwaith a gwasanaethau	12
• Adennill costau llawn	12
• Costau rheoli a chynnal a chadw y tu hwnt i'r cynllun	13
• Cymorth gwladwriaethol	13
• Yr iaith Gymraeg	13
Y broses ymgeisio ac asesu	**13**
• Trosolwg	13
• Amserlen cais Partneriaethau Tirwedd	15
• Cychwyn arni	18
• Cais y rownd gyntaf	18
• Cynllunio a datblygu	19
• Cyflogi swyddog cynllun Partneriaeth Tirwedd yn ystod y cyfnod datblygu	20
• Pwyntiau pwysig am grantiau datblygu	20
• Cyflwyniad ail rownd	20
• Dyddiadau cau ac asesu	21
• Gwneud penderfyniadau	21
Sut byddwn yn monitro eich cynllun	**22**
• Monitro cynllun	22
• Talu grantiau	22
• Cwblhau a gwerthuso eich cynllun	23
Hyrwyddo a chydnabod eich grant	**23**
• Cyhoeddi a chydnabod y cynllun	23
Gwybodaeth arall am eich cais	**23**
• Rhyddid gwybodaeth	23
• Y Ddeddf Diogelu Data	24
Cwynion	**24**
Atodiad: Partneriaethau Tirwedd a phrosesau ymgeisio CDL	**25**

Trosolwg

Ynglŷn â Phartneriaethau Tirwedd

- Partneriaethau Tirwedd (PT) yw ein rhaglen grant i gefnogi cynlluniau a arweinir gan bartneriaethau o ddiddordebau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n anelu at warchod ardaloedd o gymeriad tirwedd leol arbennig ledled y Deyrnas Unedig.
- Disgwylir i gynllun Partneriaeth Tirwedd gyflawni ar draws pob un o'r pedwar canlyniad rhaglen canlynol:

  A Diogelu neu adfer y nodweddion adeiledig a naturiol sy'n creu cymeriad y dirwedd hanesyddol.

  B Cynyddu cyfranogiad y gymuned mewn treftadaeth leol.

  C Galluogi mwy o bobl i gyrraedd yr ardal tirwedd a'i threftadaeth a dysgu amdani.

  D Cynyddu cyfleoedd hyfforddiant mewn sgiliau treftadaeth lleol.
- Mae'r fenter rhoi grantiau hon ar gyfer cynlluniau sy'n seiliedig ar bartneriaeth i ddiogelu ardaloedd o gymeriad tirwedd leol arbennig.
- Ynghyd ag ariannwyr eraill, rydym yn cyfrannu at gronfa gyffredin a reolir gan fwrdd partneriaeth i gefnogi rhaglenni o brosiectau unigol a fydd yn diogelu treftadaeth, yn cynyddu dealltwriaeth a sgiliau ac yn galluogi pobl i gyrraedd treftadaeth tirwedd yr ardal.
- Os gofynnwch am grant sy'n llai na £1 miliwn, bydd angen ichi ddarparu o leiaf 10% o gostau'r cynllun o'ch ffynonellau chi neu eraill. Os gofynnwch am grant sy'n £1 miliwn neu fwy, bydd angen ichi ddarparu o leiaf 25% o gostau'r cynllun o'ch ffynonellau chi neu eraill.
- Gan ein bod eisiau i unrhyw fuddsoddiad CDL yn eich cynllun gael effaith, byddem fel arfer yn disgwyl i gynlluniau gynnwys ardal sydd rhwng tua **20** km^2 a **200** km^2.
- **Dylai eich cais rownd gyntaf wedi'i gwblhau gyrraedd eich swyddfa rhanbarth neu wlad heb fod yn hwyrach na 30 Tachwedd bob blwyddyn, am benderfyniad mewn llwyth blynyddol sengl gan ein Hymddiriedolwyr yn y mis Ebrill canlynol.**

Cyflwyniad

Canlyniadau Partneriaethau Tirwedd

Mae Partneriaethau Tirwedd yn cyfrannu at ddiogelu treftadaeth yn rhan annatod o adfywio gwledig. O dan y rhaglen hon byddwn yn cefnogi cynlluniau sy'n darparu buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol tymor hir i ardaloedd gwledig. Nod Partneriaethau Tirwedd yw creu ymagwedd bartneriaeth integredig at reoli ein treftadaeth tirwedd. Rhaid bod cynlluniau llwyddiannus yn canolbwyntio ar ardal o gymeriad tirwedd arbennig a rhaid iddynt gyflawni'r pedwar canlyniad rhaglen canlynol, sydd hefyd yn benawdau'r rhaglenni gwaith y bydd pob cynllun yn eu cyflawni.

Canlyniadau Partneriaethau Tirwedd

A. Diogelu neu adfer y nodweddion adeiledig a naturiol sy'n creu cymeriad y dirwedd hanesyddol.

B. Cynyddu cyfranogiad y gymuned mewn treftadaeth leol.

C. Galluogi mwy o bobl i gyrraedd y dirwedd a'i threftadaeth a dysgu amdani.

D. Cynyddu cyfleoedd hyfforddiant mewn sgiliau treftadaeth lleol.

Rhaid bod pob cynllun Partneriaeth Tirwedd â'i wreiddiau'n gadarn yng nghanlyniadau asesiad o gymeriad tirwedd a fydd yn nodi'r problemau a'r cyfleoedd a ganfuwyd yn yr ardal PT. Rhaid i'r wybodaeth hon gael ei chyfuno hefyd ag anghenion a gwerthoedd pobl sy'n byw, yn gweithio ac yn treulio amser yno, er mwyn nodi'r materion blaenoriaeth a sefydlu prosiectau a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ddiogelu arbenigrwydd lleol.

Pwy sy'n gallu ymgeisio

Y Bartneriaeth

Rydym yn ariannu cynlluniau sy'n hyrwyddo buddion i'r cyhoedd ac na'u bwriedir yn bennaf ar gyfer elw preifat.

Mae ymagwedd **bartneriaeth** yn ganolog i ddatblygu cynllun llwyddiannus. Caiff Partneriaethau Tirwedd eu cyflawni fel arfer gan bartneriaeth sy'n cynnwys sefydliadau rhanbarthol, cenedlaethol a lleol sydd â diddordeb yn yr ardal, grwpiau cymunedol ac aelodau'r gymuned. Disgwyliwn i'r bartneriaeth gael diben cyffredin i ddatblygu, rheoli a chyflawni'r cynllun er budd y dirwedd a'r gymuned gyfan.

Gall partneriaeth fod:

- yn nifer o sefydliadau neu unigolion ar wahân a gysylltwyd â'i gilydd yn bartneriaid drwy gytundeb ysgrifenedig, at ddibenion cyflawni cynllun y Bartneriaeth Tirwedd. Bydd partner arwain yn gwneud cais inni ac yn gyfrifol am reoli'r cynllun ar ran pawb sy'n rhan ohono; neu'n
- bartneriaeth bresennol â'i phrif rôl, neu ran o'i rôl, yw diogelu tirwedd yr ardal, er enghraifft Bwrdd Cadwraeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Rhaid i bartneriaid y cynllun naill ai fod yn llofnodwr i'r cyfansoddiad, neu hefyd wedi'u cysylltu â'i gilydd yn bartneriaid drwy gytundeb ysgrifenedig fel uchod, at ddibenion cyflawni'r cynllun Partneriaethau Tirwedd.
- sefydliad newydd, lle cynrychiolir pob partner (naill ai ar y Bwrdd neu fel Grŵp Llywio) a sefydlwyd yn benodol i gyflawni'r cynllun PT.

Mae'n bwysig cydnabod bod yr ymgeisydd arwain ar gyfer y cynllun yn debygol o orfod darparu llif arian sicr yn ystod oes y cynllun, oherwydd bydd CDL yn talu hawliadau grant i'r bartneriaeth mewn ôl-ddyledion. Bydd angen ichi ystyried yn ofalus pwy sydd â'r gallu gweinyddol ac ariannol i reoli'r agwedd hon ac sydd yn y sefyllfa orau i ymgeisio ar ran y bartneriaeth.

Gall y partner arwain newid rhwng cais y rownd gyntaf a'r ail rownd. Bydd y partner arwain yn y rownd gyntaf yn gyfrifol am gontract a gweinyddu'r grant datblygu. Rhaid i bartneriaethau ddangos bod ganddynt gefnogaeth a chyfranogiad y gymuned leol, drwy gael sefydliadau cymunedol a chynrychiolwyr cymunedol ar fwrdd y bartneriaeth.

Disgwyliwn y bydd y bartneriaeth sy'n dechrau'r broses hon yn tyfu wrth ichi ddatblygu eich cynllun. Bydd angen adlewyrchu yn aelodaeth y bartneriaeth yr elfennau treftadaeth a diddordebau'r ardal ddaearyddol y byddwch yn canolbwyntio arnynt yn y pen draw. Os ydych eisoes yn bartneriaeth bresennol a ddaeth at ei gilydd at wahanol ddiben, dylech fod yn fodlon ehangu eich partneriaeth i adlewyrchu anghenion y cynllun penodol hwn a ffin yr ardal.

Byddem yn disgwyl i'r bartneriaeth gynnwys:

- cynrychiolwyr buddiannau lleol, rhanbarthol ac (os yw'n briodol) cenedlaethol, sy'n adlewyrchu ardal y Bartneriaeth Tirwedd arfaethedig. Mae llawer o wahanol adrannau llywodraeth, asiantaethau ac awdurdodau lleol, rhanbarthol a chanolog, a phob un â'i nodau a chylchoedd gwaith arbenigol ei hun yn eich ardal.
- rhaid cynrychioli pobl y mae eu bywoliaeth a'u hansawdd bywyd yn dibynnu ar dirwedd yr ardal. Gall hyn fod drwy grwpiau wedi'u trefnu a sylfaenwyd at ddibenion penodol, er enghraifft Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, cymdeithas hanes leol neu ymddiriedolaeth bywyd gwyllt.
- grwpiau cymunedol, er enghraifft grŵp ti a fi, clwb ieuenctid neu grŵp byw'n iachus, neu asiantaethau eraill fel y gwasanaeth llyfrgell lleol, neu Gychwyn Cadarn.

Yr allwedd i ddatblygu a chyflawni cynllun llwyddiannus yw cael cynifer o'r grwpiau hyn â phosibl yn gweithio gyda'i gilydd yn hytrach nag ar wahân. Drwy bartneriaeth bellgyrhaeddol, dylai'r cynllun anelu at gynhyrchu ymagwedd fwy integredig at gadwraeth ar draws tirwedd gyfan. Efallai bydd rhai prif sefydliadau neu unigolion a fydd eisiau ymuno â chi fel partneriaid yn y cynllun arfaethedig; nid y partneriaid hynny sy'n gallu gwneud cyfraniad ariannol yw'r rhain yn unig o reidrwydd. Efallai bydd eraill eisiau cyfuno fel gweithgorau ar bynciau penodol. Efallai bydd rhai pobl a grwpiau eisiau cael gwybod beth sy'n digwydd yn unig, tra bydd eraill eisiau chwarae rhan weithgar. Dylech roi sylw penodol i sut y strwythurwch eich partneriaeth, er mwyn iddi esblygu tra bo'r cynllun yn tyfu ac fel bod pawb yn cael cyfle i gymryd rhan yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn cynllunio'r Bartneriaeth Tirwedd.

Gallwn gefnogi cost y cyngor cyfreithiol, ariannol neu broffesiynol arall ar sut y gallech ffurfio eich partneriaeth a sefydlu ei systemau ariannol a rheoli.

Yn y rownd gyntaf, deallwn na fyddwch efallai wedi cwblhau eich partneriaeth na'ch cytundeb partneriaeth eto. Byddwn yn derbyn copi o'ch cytundeb drafft yn y cyfnod hwn. Fodd bynnag, mae angen bod hwn wedi'i gwblhau a'i lofnodi gan yr holl bartneriaid perthnasol erbyn ichi anfon eich cyflwyniad ail rownd i mewn.

Nodweddion cynllun Partneriaeth Tirwedd

Asesiad o gymeriad tirwedd

Daeth y Confensiwn Tirwedd Ewropeaidd (ELC) i rym yn y DU ym mis Mawrth 2007. Diffiniad ELC o dirwedd yw '… **ardal, fel y canfyddir gan bobl, y mae ei chymeriad yn ganlyniad ffactorau naturiol a/neu ddynol yn gweithredu ac yn rhyngweithio'.** *Erthygl 1. Confensiwn Tirwedd Ewropeaidd, Diffiniadau*

Yr egwyddor hon o'r cysylltiad rhwng tirwedd a phobl y mae CDL yn ymdrechu i'w hyrwyddo drwy'r Partneriaethau Tirwedd. Credwn mai'r rhaglen hon yw un o'r prif ffyrdd y gall y DU helpu i gyflawni ei hymrwymiadau o dan y confensiwn hwn.

Gellir diffinio cymeriad tirwedd fel 'patrwm arbennig, adnabyddadwy a chyson o elfennau yn y dirwedd sy'n gwneud un dirwedd yn wahanol i'r llall, yn hytrach na gwell neu waeth. Yn syml, cymeriad tirwedd yw'r hyn sy'n gwneud ardal yn unigryw.

Ar gyfer Partneriaeth Tirwedd mae'n rhaid ichi nodi ardal o gefn gwlad sydd â chymeriad tirwedd arbennig, sy'n cael ei gydnabod a'i werthfawrogi gan bobl leol. Bydd angen ichi ddisgrifio'r hyn sy'n gwneud y dirwedd hon yn unigryw a'r hyn sy'n rhoi iddi ei **'hymdeimlad o le.'** Bydd rhaid ichi egluro pa nodweddion neu elfennau o'r dirwedd hon, a'r gweithgarwch dynol cysylltiedig, sy'n ei gwneud yn arbennig.

Datblygwyd nifer o arfau i'n helpu i ddisgrifio tirwedd. Lluniodd Scottish Natural Heritage a Countryside Agency (CA) arweiniad ar Asesu Cymeriad Tirwedd yn 2002. Mae'n ein helpu i ddadansoddi a disgrifio'r gwahanol fathau o dirwedd sy'n bodoli. Mae nifer o fentrau lefel Gwlad sy'n dynodi cymeriad tirwedd ac er bod pob un yn defnyddio ymagweddau ychydig yn wahanol, mae llawer yn gyffredin rhyngddynt.

Yn Lloegr, mae'r map o 159 o Ardaloedd Cymeriad Cyffredin (ACC) yn darparu darlun o'r gwahaniaethau mewn cymeriad tirwedd ar y raddfa genedlaethol. Daw gyda disgrifiadau cymeriad o bob ACC sy'n dangos y dylanwadau sy'n pennu cymeriad y dirwedd. Mae'r Alban a Gogledd Iwerddon wedi mabwysiadu methodoleg debyg i asesu cymeriad tirwedd.

Yng Nghymru mae gwahanol ymagwedd, o'r enw LANDMAP, sy'n casglu gwybodaeth am bum gwahanol agwedd ar dirwedd: tirwedd ddaearegol, cynefinoedd tirwedd; gweledol a synhwyraidd; tirwedd hanesyddol a thirwedd ddiwylliannol.

Datblygodd English Heritage fethodoleg a bu'n ariannu rhaglen o gymeriadu Tirwedd Hanesyddol sy'n cofnodi cyfraniad gweithgarwch dynol at hanes a golwg y dirwedd – y 'dyfnder amser'.

Am wybodaeth bellach am asesu cymeriad tirwedd, cyfeiriwch at wefan Landscape Character Network, a gefnogir gan Natural England:- www.landscapecharacter.org.uk

Dylech hefyd gael cyngor am eich asesiad cymeriad Tirwedd a'ch cynllun gan y sefydliadau treftadaeth cenedlaethol perthnasol, er enghraifft Natural England, English Heritage, Scottish Natural Heritage, Historic Scotland, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Gwasanaeth Treftadaeth yr Amgylchedd, Gogledd Iwerddon.

Mae'r ymgyrch Campaign to Protect Rural England (CPRE) hefyd yn awyddus i warchod cymeriad tirwedd ac mae'n hyrwyddo dull asesu cymeriad tirwedd a gynhelir gan gymunedau lleol.

Am wybodaeth bellach am hyn, ewch i'w gwefan: www.cpre.org.uk/campaigns/landscape/countryside-character

Ardal Partneriaeth Tirwedd

Dylai ardal eich Partneriaeth Tirwedd fod yn ardal o dir sydd â chymeriad lleol arbennig, sy'n cael ei gydnabod a'i werthfawrogi gan bobl leol. Deall cymeriad tirwedd eich ardal ddethol yw'r sail sylfaenol am Bartneriaeth Tirwedd. Gallwch gynnal astudiaethau cymeriad tirwedd mewn sawl gwahanol ffordd, gan ddefnyddio pobl leol a/neu staff neu ymgynghorwyr arbenigol. Fel y disgrifir uchod, mae'n rhaid ichi ddefnyddio ymagwedd integredig sy'n ystyried y dreftadaeth adeiledig a chladdedig, treftadaeth naturiol, arferion rheoli ac amrywiaeth eang o draddodiadau a gweithgareddau diwylliannol sy'n gysylltiedig â'r ardal.

Os yw'r ardal rydych yn cynnig canolbwyntio arni eisoes yn rhan o asesiad cymeriad tirwedd presennol, efallai bydd angen adolygu hwn a chodi'r wybodaeth berthnasol ar gyfer ardal cynllun benodol. Efallai nad yw'r asesiad cymeriad presennol yn ddigon manwl i lywio cyfeiriad eich cynllun yn union. Os felly, efallai bydd angen ichi wneud gwaith ychwanegol manylach. Fel arall, efallai bydd angen ichi dynnu gwybodaeth ynghyd o asesiadau ac arolygon presennol a diweddaru'r asesiad cymeriad i lywio eich cais. Byddwn yn disgwyl gweld asesiad cymeriad tirwedd addysgiadol am ardal eich cynllun a fydd yn ein helpu i ddeall sut y mae eich rhaglenni o brosiectau am fynd i'r afael â bygythiadau a materion y dirwedd benodol a nodwyd gennych.

Bydd angen ichi arddangos eich bod wedi cynnal asesiad cymeriad tirwedd o safon, sy'n ddigon manwl, erbyn ichi anfon eich cyflwyniad ail rownd i mewn. Byddwn yn disgwyl i'r Asesiad Cymeriad Tirwedd hwn atgyfnerthu a rhoi rhyw sail resymegol i'r prosiectau a ddewiswyd gennych.

Eich gweledigaeth

Er mwyn diogelu a chryfhau treftadaeth adeiledig a naturiol arbennig eich ardal, bydd angen ichi sefydlu gweledigaeth gadarn i'r cynllun drwy asesu cyflwr ac anghenion y dirwedd y byddwch yn gweithio ynddi. Rhaid ystyried hefyd farnau, gwerthoedd ac anghenion y cymunedau lleol.

Ar gyfer y cais rownd gyntaf, bydd angen ichi osod gweledigaeth ar gyfer dyfodol eich ardal Partneriaeth Tirwedd a'i chymunedau. Yn ystod y cyfnod datblygu gellid mireinio'r weledigaeth hon ymhellach i adlewyrchu'r wybodaeth ychwanegol a fydd yn cael ei chasglu yn ystod y cyfnod hwn. Dylai eich gweledigaeth i'ch ardal fod yn wahanol i strategaethau a chynlluniau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol eraill, ond cysylltu'n uniongyrchol â hwy.

Maint ac effaith

Argymhellwn fod eich Partneriaeth Tirwedd nid llai na 20 km^2 ac nid yn fwy na 200 km^2 er mwyn i'ch cynllun wneud gwahaniaeth go iawn a chynnig gwerth da am arian. Mae'n rhaid ichi ystyried anghenion posibl yr ardal, yr holl gyllid sy'n debygol o fod ar gael a'r effaith gyffredinol y bydd cynllun yn ei chael. Os byddwch yn lledaenu'r adnoddau'n rhy denau, dros ardal rhy eang, efallai na fyddwch yn gallu dangos eich bod wedi cyflawni buddion treftadaeth a chymunedol clir. Argymhellwn yn gryf nad ydych yn rhy uchelgeisiol gyda maint yr ardal.

Byddwn hefyd yn disgwyl i'ch ffin adlewyrchu graddau cymeriad y dirwedd, y nodweddion ffisegol ar y ddaear, ynghyd â barnau a gwerthoedd pobl leol. Ni ddylid ei ddiffinio gan ffiniau gweinyddol.

Y cynllun

Gan fod pob ardal a phartneriaeth yn wahanol gofynnwn ichi roi gwybodaeth mewn modd cyson er mwyn asesu'r cynlluniau hyn mewn llwyth cystadleuol. Strwythurwch eich cynllun fel a ganlyn, o dan y pum pennawd rhaglen. Bydd pob rhaglen yn cynnwys pecyn o brosiectau sy'n cyflawni canlyniadau'r rhaglen. Disgwyliwn i bob cynllun fod yn gytbwys o ran eu heffaith ar draws y pedwar canlyniad rhaglen. Ni fydd cynlluniau sy'n canolbwyntio'n helaeth ar un neu ddau o ganlyniadau'r PT yn flaenoriaeth uchel am ein arian.

Strwythur cynllun Partneriaeth Tirwedd

Rhaglen A: Diogelu nodweddion adeiledig a naturiol	Rhaglen B: Cyfranogiad cymunedol	Rhaglen C: Mynediad a dysgu	Rhaglen D: Hyfforddiant sgiliau treftadaeth	Rhaglen E: Staff a gorbenion
Prosiect a	Prosiect a	Prosiect a	Prosiect a	Swydd 1
Prosiect b	Prosiect b	Prosiect b	Prosiect b	Swydd 2 ayyb
Prosiect c	Prosiect c	Prosiect c	Prosiect c	Gorbenion…
Prosiect d	Prosiect d	Prosiect d	Prosiect d	Gwerthuso cynllun
Prosiect e…	Prosiect e…	Prosiect e…	Prosiect e…	Rheoli a chynnal a chadw…

Yn y rownd gyntaf mae'n debygol y bydd eich prosiectau'n ddangosol ac nid yn orffenedig. Yn ystod y gwaith datblygu, sy'n cael ei lywio gan y bygythiadau a'r cyfleoedd a nodwyd gennych drwy'r asesiad cymeriad tirwedd, unrhyw arolygon a gwybodaeth ychwanegol, ynghyd ag ymgynghori â'r gymuned a'r bartneriaeth, bydd angen ichi lunio eich prosiectau gwreiddiol o dan y pedwar canlyniad PT. Yn yr ail rownd dylid cadarnhau'r rhain a dylai'r prosiectau gael eu datblygu'n llawn.

Bydd ffurflen gais a nodiadau cymorth y rownd gyntaf yn eich helpu i strwythuro eich cynllun yn y dull y gofynnwn.

Siart llif Partneriaethau Tirwedd



Beth rydyn ni'n ei ariannu

Rhaglenni a phrosiectau

Dylai'r rhestri isod roi syniad ichi o'r mathau o brosiect sy'n gymwys yn gyffredinol o dan bob un o'r penawdau rhaglen. Ni ddylid ystyried bod y rhestr yn gynhwysfawr nac yn derfynol. Os ydych yn ansicr am gymhwyster prosiect penodol, yn enwedig os oes risg mawr yn perthyn iddo (e.e. mae'n ddrud, neu'n dechnegol heriol), dylech holi eich swyddog grant CDL a enwyd neu eich mentor CDL os penodwyd un o'r rhain i'ch cynllun.

Efallai bydd o ddefnydd ichi gyfeirio at rai o'n harweiniadau eraill, er enghraifft: *Meddwl am gadwraeth; Meddwl am ddysgu; Meddwl am gyfranogiad cymunedol; Meddwl am hyfforddiant; Meddwl am ddehongli;* a *Chynllunio gweithgareddau mewn prosiectau treftadaeth*. Gallwch eu llwytho i lawr o www.hlf.org.uk.

Rhaglen A:
Diogelu neu adfer y nodweddion adeiledig a naturiol sy'n creu cymeriad y dirwedd hanesyddol

Gall y rhaglen hon gynnwys:

- strwythurau a nodweddion adeiledig hanesyddol sy'n gysylltiedig ag arferion ffermio neu gefn gwlad neu brosesau diwydiannol fel gweithdai, ysguboriau, waliau, ffosydd, cloddiau, ffensys, dyfrbyllau, ffynhonnau, odynau calch, pyllau melin, pennau olwyn, ffrydiau a llifddorau, chwareli;
- cynefinoedd a rhywogaethau (yn benodol os ydynt yn bodloni blaenoriaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU (UKBAP), strategaethau bioamrywiaeth gwlad a CBGau lleol);
- adeiladau neu nodweddion addurnol fel ffoleddau, cerfddelwau, pyllau, llynnoedd, rhaeadrau, ffynhonnau, rhodfeydd, clystyrau neu leiniau coed;
- nodweddion a grëwyd i goffáu pobl neu ddigwyddiadau lleol;
- gwrthgloddiau, nodweddion a dyddodion archeolegol;
- palmentydd; adrannau daearegol; dyddodion; datguddiadau neu nodweddion calchfaen;
- systemau cyflenwi dŵr a draeniad traddodiadol;
- bridiau prin o anifeiliaid dof sy'n draddodiadol i'r ardal;
- gwaredu adeiladau a strwythurau amhriodol sy'n niweidio ansawdd y dirwedd;
- torri planhigfeydd neu goed, clirio prysg neu lystyfiant hunanheuedig a'r rheoli penodol sydd ei angen i adfer neu roi budd i gynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth; ac
- ailgyfeirio neu adleoli gwasanaethau neu gyfleusterau statudol, os ydynt yn gwneud niwed penodol i olygfa bwysig ac os yw'n rhan fechan o brosiect mwy.

Rhaglen B:
Cynyddu cyfranogiad y gymuned mewn treftadaeth leol

Gall y rhaglen hon gynnwys cymunedau mewn:

- dathlu, archwilio a hyrwyddo cysylltiadau a chymdeithasau diwylliannol;
- cofnodi, asesu ac ymchwilio i'r dreftadaeth a'r dirwedd leol;
- gwneud penderfyniadau am y dreftadaeth;
- recriwtio a chynnwys gwirfoddolwyr newydd mewn gweithgareddau treftadaeth;
- diogelu ac arddangos cofnodion, archifau neu arteffactau;
- hyrwyddo ac arddangos crefftau ac arferion, sgiliau, gwaith a phroffesiynau traddodiadol;
- cydnabod ac arddangos enwau lleoedd a theuluoedd, a chysylltiadau â mewnfudo, cyflogaeth a gwladychu;
- dathlu iaith a thafodiaith;
- cynnal digwyddiadau neu wyliau traddodiadol;
- ymchwilio i straeon a llên gwerin lleol;
- nodi a chysylltu lleoedd a'r bobl â chysylltiad penodol â hwy.

Rhaglen C:
Galluogi mwy o bobl i gyrraedd y dirwedd a'i threftadaeth a dysgu amdani

Gall y rhaglen hon gynnwys:

- gwaredu neu leihau rhwystrau rhag mynediad, sy'n gallu bod yn ffisegol, synhwyraidd, deallusol, sefydliadol, diwylliannol neu ariannol;
- os yw mynediad ffisegol yn amhosibl, canfod atebion eraill fel technoleg ddigidol, cysylltiadau fideo, arddangosfeydd, teithiau sain, neu siarad mewn adeiladau neu safleoedd sy'n hygyrch;
- gwella gwybodaeth a dehongliad o'r ardal er mwyn iddynt fodloni anghenion a diddordebau pob grŵp cymdeithasol a diwylliannol, gan gynnwys pobl ag anableddau; er enghraifft paneli dehongli, canllawiau sain, fideo, gwefannau a chyhoeddiadau mewn amrywiaeth o gyfryngau a fformatau;
- gweithgareddau ac adnoddau i helpu pobl i gymryd rhan yn eu treftadaeth, er enghraifft darlithiau, arddangosiadau a gweithdai;
- 'diwrnodau agored' i ffermydd neu safleoedd treftadaeth neu weithgynhyrchwyr traddodiadol;
- rhaglenni a deunyddiau sy'n gysylltiedig â chwricwla cenedlaethol i ysgolion a cholegau;
- targedu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i fodloni eu hanghenion a'u diddordebau penodol drwy gynnig gweithgareddau fel ymweliadau wedi'u teilwra, teithiau tywys a rhaglenni;
- darparu cyfleusterau sy'n bodloni anghenion ymwelwyr fel toiledau cyhoeddus, seddi neu le picnic;
- gwella gwasanaethau gwybodaeth am y dreftadaeth i ddefnyddwyr ac ymwelwyr;
- datblygu cysylltiadau â thrafnidiaeth gyhoeddus, tafarndai, siopau neu lety i wella'r profiad i ymwelwyr; a
- chryfhau cysylltiadau rhwng pobl a chefn gwlad drwy gefnogi cynhyrchion a gwasanaethau lleol a darparu cyfleoedd am swyddi newydd.

Rhaglen D:
Cynyddu cyfleoedd hyfforddiant mewn sgiliau treftadaeth lleol

Datblygu sgiliau a fydd yn cyfrannu at warchod, adfer a deall yr ardal PT yn y dyfodol; gall y rhain gynnwys:

- prentisiaethau a swyddi preswyl i raddedigion;
- profiad gwaith a lleoliadau gwaith i fyfyrwyr ysgol neu goleg;
- cyrsiau byr sy'n gysylltiedig ag achrediad;
- digwyddiadau sy'n rhannu sgiliau mewn cymunedau;
- cysylltiadau ag ysgolion a chyrsiau choleg AU/AB; a
- hyfforddi gwirfoddolwyr.

Rhaglen E: Rhaglen Gefnogi Gorbenion, staff y cynllun a chostau rhedeg

- Cyfeiriwch at y nodiadau cymorth rownd gyntaf am fwy o fanylion ar yr hyn y dylid ei gynnwys o dan y pennawd rhaglen hwn. Mae hyn yn cynnwys holl staff y cynllun; costau teithio a hyfforddi staff; costau rhedeg ar gyfer y swyddfa; gwerthuso a monitro.

Adeiladau newydd a gwarchod ac addasu adeiladau hanesyddol o dan y rhaglen PT

Os gallwch ddangos bod angen go iawn am adeilad penodol i gefnogi unrhyw un o bedwar canlyniad PT, gallwn hefyd ddarparu cyllid i adfer neu addasu adeiladau hanesyddol. Rhaid hefyd i'r cyfleuster hwn roi budd clir i'r gymuned leol a chael cefnogaeth y gymuned honno, neu alluogi'r tîm sy'n cyflawni'r cynllun i fod yn ardal y cynllun.

Gan mai un o'n blaenoriaethau yw diogelu a chryfhau'r dreftadaeth bresennol, ystyrir bod cynigion am adeiladau newydd mewn Partneriaethau Tirwedd yn flaenoriaeth isel.

Weithiau, gellir gwneud achos eithriadol iawn, ond dim ond os gellir dangos bod angen cryf iawn, nad oes unrhyw ddarpariaeth leol addas arall (dylech gyflwyno gwerthusiad opsiynau sy'n adolygu'r stoc adeiladau bresennol i gefnogi eich achos yn y rownd gyntaf) ac os yw'n anhepgor i gyflawni'n llwyddiannus o leiaf un o'r pedwar canlyniad PT.

Dylech gofio na ddylai costau ar gyfer yr adeiladau hyn fod yn gyfran sylweddol o unrhyw un pennawd rhaglen a chyfeirio at ein harweiniad *Cynllunio prosiectau treftadaeth gwyrddach* ar gyfer unrhyw waith arfaethedig i adeiladau.

Beth nad ydym yn ei ariannu

Gall cynlluniau Partneriaeth Tirwedd gyfuno cyllid o nifer o wahanol sefydliadau i nifer lawer o brosiectau a dibenion, y gallant oll gyfrannu at adfywio ardal. Mae'n bwysig cydnabod na fyddwn yn ariannu prosiectau na mathau o waith nad ydynt yn arfer da i dreftadaeth. Mae hefyd rhai meysydd cyllid na fyddwn yn rhoi grantiau ar eu cyfer. Mewn Partneriaeth Tirwedd mae'r rhain yn cynnwys:

- prosiectau nad ydynt yn canolbwyntio ar dreftadaeth, fel cyfleusterau hamdden neu chwaraeon, peirianneg sifil neu waith sy'n gysylltiedig â lliniaru llifogydd, ffyrdd newydd, pontydd neu systemau traffig;
- gwaith sydd eisoes wedi dechrau;
- prosiectau ailadrodd neu brosiectau parhaus rydym wedi'u hariannu o'r blaen (oni bai bod yr amrywiaeth o fuddion i dreftadaeth neu'r bobl dan sylw yn wahanol iawn i'r gwreiddiol);
- gwasanaethau sy'n rhan o weithgareddau busnes canolog neu gyfrifoldeb yr ymgeisydd arwain neu aelodau'r bartneriaeth, fel:

  - atgyweiriadau arferol a chynnal a chadw adeiladau a safleoedd cyhoeddus; a

  - bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol fel o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd;
- gwerthusiadau opsiynau (asesu pa opsiynau sydd ar gael), ac astudiaethau dichonolrwydd (dangos a yw'r opsiynau a ddewiswyd yn bosibl);
- gwaith annibynnol i fodloni rheoliadau adeiladu neu waith y mae angen ichi ei wneud yn rhan o unrhyw ganiatâd cynllunio;
- prosiectau ag ychydig neu ddim budd cyhoeddus - er enghraifft, gwaith amaethyddol cyfredol, neu ddiogelu adeiladau a ddefnyddir yn weithgar at ddibenion amaethyddol neu fasnachol, cerbydau, peiriannau neu drafnidiaeth at ddefnydd neu fudd preifat;
- prosiectau sy'n cynnwys prynu tir neu adeiladau (oni bai bod yr ased i'w gaffael yn cael ei brisio'n llai na £5000 a bydd yn galluogi prosiect i ddigwydd);
- cynlluniau sy'n canolbwyntio gormod ar un prosiect mawr (y gallech, os yw'n brosiect treftadaeth, wneud cais ar wahân ar ei gyfer o dan raglen arall); a
- chostau staffio a rhedeg bob dydd eich sefydliad neu sefydliadau eraill.

Cronfa Gyffredin y Partneriaethau Tirwedd

Yn ganolog i gyflawni Partneriaeth Tirwedd yw'r gronfa arian gyffredin neu gyfun y mae'n rhaid ei sicrhau er mwyn cyflawni'r cynllun cyfan. Bydd eich cronfa gyffredin yn cynnwys ffynonellau amrywiol o gyllid, gan gynnwys ein cyfraniad. Gallwch wario'r gronfa PT naill ai'n uniongyrchol drwy archebu a rheoli gwaith neu weithgareddau eich hun, a/neu yn rhannol drwy ddarparu grantiau bach yn anuniongyrchol i eraill (`grantiau trydydd parti').

Gallwn gyfrannu rhwng £250,000 a £2 filiwn at gronfa cynllun PT gan gynnwys unrhyw arian datblygu. Os ydych yn gofyn am grant islaw £1 miliwn, bydd angen ichi ddarparu **o leiaf** 10% o gostau'r cynllun o ffynonellau eraill naill ai'n ariannol neu gyfraniadau o fath arall. Mae hyn yn cynyddu i 25% ar gyfer grantiau o £1 miliwn neu fwy. Mae'n rhaid ichi ddarparu o leiaf 5% mewn arian.

Gallwch gyfrannu cyllid o adnoddau eich sefydliad eich hun neu, os ydych chi'n gallu, o unrhyw ffynhonnell gyhoeddus, elusennol neu breifat, gan gynnwys rhaglenni cyllid Ewropeaidd. Gallwch ddefnyddio cyllid o ddosbarthwr Loteri arall ar gyfer rhannau o'r cynllun nad ydym yn eu hariannu. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cyfrif tuag at y cyfraniad lleiaf 10% neu 25% at y cynllun o'ch ffynonellau eich hun neu eraill.

Rhaid bod y gronfa PT yn ddigon mawr i wneud a thalu am yr holl waith a nodwch yn y rhaglenni a gyflwynwch yn eich cynnig. Rhaid i'ch partneriaeth ddarparu'r gronfa PT gyfan, cwblhau gwaith cyflawni'r cynllun, a gwneud pob hawliad am daliad ymhen pum mlynedd.
Bydd gofyn ichi ddarparu proffil gwario, a fydd yn cael ei gytuno ar y cyd a bydd cynnydd mewn perthynas ag ef yn cael ei adolygu bob blwyddyn.

Cyfrifoldeb y bartneriaeth (os yw'n sefydliad a sefydlwyd yn gyfreithiol), neu'r partner arwain ar ran y bartneriaeth gyfan, fydd cyfrif am y gronfa gyffredin a'i rheoli.

Ariannu gwaith ar asedau sy'n eiddo preifat drwy grantiau trydydd parti

Rydym yn cydnabod y gallwch ddisgwyl i lawer o'r prosiectau yn eich cynllun ddigwydd ar dir neu gynnwys eiddo nad ydych chi na'ch partneriaid yn berchen arno nac yn ei reoli'n uniongyrchol. Bydd ymgeisydd arwain y bartneriaeth (os yw'n sefydliad a sefydlwyd yn gyfreithiol) yn gyfrifol am gydymffurfio â thelerau ein grant mewn perthynas â'ch cynllun, gan gynnwys ad-dalu'r grant os oes angen.
Os nad chi yw perchennog na rheolwr yr eiddo sydd wedi elwa o'r grant, bydd rhaid ichi ystyried sut, a thrwy ba gytundebau cyfreithiol, y byddwch chi'n sicrhau bod pwy bynnag sy'n cael eich grant yn cadw at ein telerau grant.

Mae cynlluniau PT yn caniatáu gwaith i dir neu eiddo lle na fyddem fel arfer yn ystyried y rhydd-ddeiliad, prydleswr neu denant yn flaenoriaeth am ein cyllid (er enghraifft, nid yw'r perchennog yn sefydliad dielw nac yn bartneriaeth). Mae hyn gan fydd y gwaith neu weithgarwch rydym yn barod ei ariannu yn rhan o'ch cynllun yn cynyddu budd cyhoeddus drwy ddiogelu'r dirwedd neu gynyddu mynediad a mwynhad yn rhan o gynllun ehangach o welliannau ar draws yr ardal. Fodd bynnag, os ydych chi'n bwriadu cynnwys gwaith i dir sy'n eiddo preifat yn eich cynllun bydd angen ichi ddangos bod y budd cyhoeddus yn fwy nag unrhyw elw preifat.

Gyda chaniatâd y perchennog, efallai byddwch eisiau gwneud gwaith i dir neu eiddo yn uniongyrchol, gan ddefnyddio cronfa gyffredin y PT yn gyfnewid am fynediad cyhoeddus a buddion eraill fel trefniadau cynnal a chadw neu reoli yn y dyfodol. Dyma lle hoffech efallai reoli safonau ac ansawdd gwaith gan ddefnyddio eich contractwyr neu wirfoddolwyr eich hun. Neu efallai hoffech ddefnyddio un contractwr i wneud sawl darn o waith bach dros ardal eang, er enghraifft gosod clwydi neu arwyddion ar hyd llwybr treftadaeth.

Efallai hefyd yr hoffech ddarparu grant tuag at waith a archebwyd neu a wnaed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y perchennog ei hun ar gyfradd canran a gytunwyd yn unol â lefelau'r budd cyhoeddus a gafwyd. Os felly bydd angen ichi:

- osod safonau a chostau cytunedig;
- sicrhau bod gwaith wedi'i wneud yn gywir; a
- monitro i sicrhau bod y safonau hyn yn cael eu cynnal.

Beth bynnag, mae'n rhaid ichi gael cytundeb trydydd parti ffurfiol â'r tirfeddiannwr sy'n amodi y bydd y buddion

cyhoeddus a ddisgrifiwyd gennych, a'r gwaith rheoli neu gynnal a chadw, yn cael eu sicrhau am 10 mlynedd yn dilyn dyddiad eich cytundeb â'r tirfeddiannwr hwnnw. Dylai hwn fod yn gytundeb cyfreithiol rhyngoch chi a'r rhydd-ddeiliad, chi a'r tenant (neu'r ddau).Mewn amgylchiadau eithriadol gall cyfnod y cytundeb trydydd parti fod yn hirach. Mae'n rhaid i'r cytundeb hwn sicrhau y gallwch fodloni eich rhwymedigaethau o dan delerau ein grant.

Byddwch chi'n cael cyfrifoldeb cyffredinol am gynnal eitemau y talwyd amdanynt â'n grant nad oes gennych reolaeth uniongyrchol arnynt ac a allai'n wir fod yn rhywle arall, er enghraifft, paneli dehongli, gatiau mochyn neu wefan. Yn yr achosion hyn, mae angen ichi sicrhau y gallwch fodloni'r rhwymedigaeth hon.

Byddem yn eich cynghori i gael cyngor cyfreithiol ymlaen llaw ar sut y gellid sefydlu trefniadau cytundebol trydydd parti felly. Gallwch gynnwys costau addasu a sefydlu trefniadau trydydd parti yn rhan o'ch costau datblygu yn eich cais.

Ystyriaethau eraill wrth gynllunio eich cynllun

Prynu nwyddau, gwaith a gwasanaethau

Os byddwch yn cael grant, mae'n rhaid ichi gael o leiaf tri thendr neu ddyfynbris cystadleuol am yr holl nwyddau, gwaith a gwasanaethau sy'n werth £10,000 neu fwy yr ydym wedi cytuno eu hariannu.

Ac, y tu hwnt i derfynau cyhoeddedig penodol a phan fydd cyllid sector cyhoeddus (gan gynnwys ein grant) yn fwy na 50% o gost eich prosiect, mae'n rhaid ichi ddilyn holl reoliadau caffaeliad (rheoliadau am brynu nwyddau, gwaith a gwasanaethau) yr Undeb Ewropeaidd (EU) a Sefydliad Masnach y Byd (WTO).

Gallwch weld gwybodaeth ac arweiniad defnyddiol ar:
www.ogc.gov.uk/documents/ProcurementPolicyPublicContractsRegulations.pdf
www.ogc.gov.uk/documents/Intro_to_EU.pdf
Cynghorwn yn gryf ichi gael cyngor proffesiynol neu gyfreithiol. Os nad ydych wedi dilyn y weithdrefn gywir, ni fyddwn yn talu'r grant.

Mae'n rhaid ichi hysbysebu ar gyfer pob swydd staff newydd.

Adennill costau llawn

Mae'r term `adennill costau llawn' yn golygu sicrhau cyllid i `adennill' yr holl gostau sefydliadol, gan gynnwys costau uniongyrchol prosiectau a'u gorbenion cysylltiedig.

Mae ymagwedd CDL at adennill costau llawn yn cael ei llywio gan yr egwyddorion canlynol:

- targedir adennill costau llawn at y sefydliadau cymorth grant hynny heb unrhyw ffordd arall o adennill eu costau ac mae'n cwmpasu'n bennaf sefydliadau gwirfoddol a rhai a arweinir gan wirfoddolwyr;
- gan fod CDL yn ariannu prosiectau untro, byddwn yn blaenoriaethu'r gorbenion sy'n gysylltiedig â chyflawni'r prosiect neu'r cynllun yn uniongyrchol yn ei leoliad;
- bydd penderfyniadau'n parhau i fod yn seiliedig ar asesiad o werth am arian y prosiect gan gynnwys y gorbenion y mae ymgeiswyr wedi dewis eu cynnwys.

Mae adennill costau llawn yn golygu y gallwn gyfrannu at gostau gweithredol arferol sefydliad. Nid ydym yn ystyried grantiau am fuddsoddiadau untro fel buddsoddiadau neu gaffaeliadau cyfalaf yn gyfraniadau at gostau gweithredol 'arferol' sefydliad a ariennir.

Os hoffech gynnwys elfen o adennill costau llawn yn eich cais, cyfeiriwch at ein harweiniad *Deall Adennill Costau Llawn*.

Costau rheoli a chynnal a chadw y tu hwnt i'r cynllun

Cewch gynnwys costau ychwanegol rheoli a chynnal eich rhaglen dros gyfnod hyd at 10 mlynedd ar ôl cwblhau eich cynllun.

Ni chaiff y gost ychwanegol hon fod yn fwy na 10% o gost gyffredinol pob rhaglen. Bydd angen ichi nodi pwy fydd yn gyfrifol am fodloni'r ymrwymiad hwn a chyfrif am hwn fel cost cynllun a hefyd fel cyfraniad y gellir ei nodi at arian partneriaeth.

Er enghraifft, os yw eich cynllun PT yn clirio prysg ar nifer o safleoedd twyndir sialc, ac er mwyn cynnal y buddion am 10 mlynedd y tu hwnt i oes y cynllun, mae'r partner arwain yn cytuno i fod yn gyfrifol am hyn, byddent yn amcangyfrif faint y byddai'r gwaith cynnal a chadw hwn yn ei gostio yn ystod y 10 mlynedd nesaf ac yn trin hwn fel cost i'r cynllun. Byddent hefyd yn cynnwys hyn yn rhan o'u cyfraniad at gyfanswm costau'r cynllun (cyhyd â bod hyn yn llai na 10% o gost y rhaglen). Bydd angen cynlluniau rheoli safle unigol ar bob safle er mwyn monitro'r ffordd y rheolir ac y cynhelir yr asedau dan sylw dros y cyfnod 10 mlynedd. Gweler ein harweiniad ar *Gynllunio rheoli cadwraeth* am ragor o wybodaeth.

Cymorth gwladwriaethol

Gall rheoliadau sefydliadau neu gynlluniau cyllido eraill, neu ddeddfwriaeth Ewropeaidd, olygu bod angen ichi gyfateb eu cyllid mewn gwahanol ffyrdd, neu gyfyngu canran y cyllid a gynigiwch i unigolion am rai gweithrediadau neu gynhyrchion o dan reoliadau Cymorth Gwladwriaethol yr UE. Eich cyfrifoldeb chi yw cadw at y rheoliadau hyn a bod yn ymwybodol o'u gofynion pan fyddwch yn llunio rhaglenni gwaith a phecynnau ariannu, ac yn cyflwyno grantiau i ffermwyr, tirfeddianwyr preifat a buddiolwyr eraill.

Mae CDL yn hysbysu ei rhaglenni perthnasol o dan gymorth gwladwriaethol amaethyddol ac yn gobeithio y bydd wedi cael cliriad ymbarél ar ran ei hymgeiswyr erbyn gwneud y dyfarniadau cyntaf ym mis Ebrill 2009. Edrychwch ar wefan CDL am y diweddaraf. Yn y cyfamser, bydd rhaid i ymgeiswyr i gynllun PT gael cliriad Cymorth Gwladwriaethol yn annibynnol rhwng y cais rownd gyntaf a chyn y cyflwyniad ail rownd.

Yr iaith Gymraeg

Os yw eich cynllun yng Nghymru neu wedi'i gynllunio i roi budd i bobl yng Nghymru, disgwyliwn ichi ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn briodol pan fyddwch yn cyflawni'r cynllun. Darllenwch ein harweiniad *Ymgorffori'r Iaith Gymraeg yn eich prosiect* am wybodaeth bellach.

Y broses ymgeisio ac asesu

Trosolwg

Byddwn yn asesu pob cais drwy broses dwy rownd. Gwneir hyn er mwyn ichi wneud cais pan fyddwch newydd ddechrau cynllunio eich cynllun a chael syniad a oes gennych gyfle da o gael grant cyn llunio eich cynigion yn fanylach. Yn y rownd gyntaf gallwch hefyd ymgeisio am **grant datblygu**. Os byddwch yn llwyddo, bydd hwn yn cyfrannu at gost cynllunio a datblygu eich cynllun hyd at eich cyflwyniad ail rownd.

Mae'r **rownd gyntaf** yn gystadleuol ac yn cael ei hasesu mewn un llwyth DU gyfan ym mis Ebrill bob blwyddyn, a'i phenderfynu gan ein Bwrdd Ymddiriedolwyr. Nid yw llwyddo yn y rownd gyntaf yn sicrhau y byddwch yn llwyddo yn yr ail rownd, er enghraifft os bydd eich cyflwyniad yn methu rhoi'r wybodaeth a'r manylion y gofynnwn amdanynt, neu os na chaiff ei gyflwyno yn yr amserlen a bennwyd. Fodd bynnag, nid yw'r ail rownd yn gystadleuol ac fe'i hystyrir

gan ein pwyllgorau gwlad a rhanbarth. Mae cyllid yn debygol o fod ar gael i'ch cynllun os yw'n bodloni ein meini prawf, blaenoriaethau ac unrhyw amodau grant y gofynnir amdanynt ar ôl y rownd gyntaf.

Bydd angen wedyn ichi ddatblygu eich cynllun ymhellach, a fydd yn debygol o fod rhwng 12 mis a'r cyfnod datblygu mwyaf sef 18 mis. Mae'r amser sydd ei angen ar y cyfnod hwn yn dibynnu ar faint o wybodaeth sydd gennych eisoes am yr ardal ac a oes gennych arian partneriaeth ychwanegol ar gyfer y cyfnod hwn.

Yn ystod y cyfnod datblygu byddwch chi'n llunio **Cynllun Gweithredu Gwarchod y Dirwedd (CGGD)** manwl, ynghyd ag unrhyw wybodaeth ategol ychwanegol y gofynnwn amdani. Cyflwynir hwn fel eich cyflwyniad ail rownd. Bydd ein staff yn gallu cynnig cyngor a chefnogaeth ichi yn ystod y broses hon. Efallai hefyd y penodwn fentor prosiect i'ch helpu i ddatblygu eich cynllun ac mae monitor yn debygol o gael ei benodi yn ystod y cyfnod cyflawni i sicrhau bod eich cynllun yn parhau i ddilyn yr amserlen a'r gyllideb.

Amserlen cais Partneriaethau Tirwedd

Proses	Amser	Eich Camau Chi	Ein Camau Ni	Grant
Cyn ymgeisio		• Llwythwch i lawr neu gofynnwch am becyn cais PT. • Darllenwch arweiniad a nodiadau cymorth y rhaglen. • Cyflwynwch ffurflen holi cyn ymgeisio.	• Byddwn yn cynghori a yw eich cynllun yn debygol o fodloni ein meini prawf a beth i'w wneud nesaf. Fe allem drefnu ymweliad safle.	
Cais rownd gyntaf	5 mis mewn asesiad	• Llenwch a chyflwyno'r ffurflen gais rownd gyntaf erbyn 30 Tachwedd (un llwyth blynyddol). • Cofiwch gynnwys eich cais am grant datblygu os yw'n berthnasol.	• Rydym yn cydnabod eich cais ymhen 14 diwrnod ac yn dweud wrthych enw eich swyddog grantiau. • Rydym yn asesu eich cais. Gallwn gysylltu â chi i drefnu ymweliad safle a thrafod eich cynllun. • Bydd y cais yn mynd i'r cyfarfod penderfynu ym mis Ebrill bob blwyddyn. Y canlyniad fydd naill ai: • Llwyddo gyda grant datblygu. • Llwyddo heb grant datblygu. • Cais aflwyddiannus	Penderfyniad gan ein hymddiriedolwyr ym mis Ebrilll
Datblygiad	O fewn 12 i 18 mis fan pellaf	• Rydych chi'n cynllunio a datblygu eich cynllun a phartneriaeth. Rydych chi'n gwneud gwaith ac ymgynghori allweddol er mwyn llunio'r CGGD. Mae hyn yn darparu'r sail resymegol am eich ardal PT. Mae'n cadarnhau eich holl gostau cynllun, rhaglenni, prosiectau, amserlen a dulliau cyflawni. • Rydych chi'n disgrifio prosiectau Blwyddyn 1.	• Byddwn yn trafod â chi'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer y cyflwyniad ail rownd a'r cynigion am y cyfnod datblygu. • Fe allem roi cymorth mentora. • Byddwn yn gwneud y taliad grant datblygu cyntaf o 50%. • Gallem adolygu cynnydd datblygiad cynllun a gofyn am adroddiad cynnydd. • Rydym yn talu gweddill y grant datblygu pan anfonwch eich cyflwyniad ail rownd, y CGGD, i mewn.	Grant datblygu hyd at £100,000 (ar wahân i'r prif grant PT)
Cyflwyniad ail rownd	4 mis	• Rydych chi'n anfon y cyflwyniad ail rownd i mewn ymhen 18 mis fan pellaf.	• Rydym yn asesu'r cyflwyniad ymhen pedwar mis o'r dyddiad y'i cawn i'r cyfarfod penderfynu chwarterol nesaf sydd ar gael. Y canlyniad fydd naill ai: o Dyfarnu grant. o Cais aflwyddiannus a dyfarnu dim grant. Os felly, byddwn yn egluro'r rhesymau pam.	Penderfyniad gan ein pwyllgorau gwlad a rhanbarth

Amserlen cais Partneriaethau Tirwedd (parhad)

Proses	Amser	Eich Camau Chi	Ein Camau Ni	Grant
Cyflawni cynllun (5 mlynedd ar y mwyaf)	Blwyddyn 1	• Rydych chi'n ymgeisio am ganiatâd i ddechrau. • Rydych chi'n dechrau prosiectau Blwyddyn 1 ac yn datblygu prosiectau Blwyddyn 2. • Rydych chi'n cyflwyno ceisiadau am daliad grant ac adroddiadau cynnydd bob 3 mis. • Dylech gyflwyno cynllun gweithredu wedi'i gostio ar gyfer blwyddyn 2 cyn diwedd blwyddyn 1. • Rydych chi'n cydnabod y grant mewn sylw yn y wasg, ar y safle ac ar gyhoeddiadau.	• Rydym yn trafod â chi'r gofynion cyflawni a monitro. • Mae CDL yn cymeradwyo'r caniatâd i ddechrau ac mae'r cynllun yn symud yn ei flaen. • Rydym yn gwneud taliadau grant mewn ôl-ddyledion yn erbyn ceisiadau talu wrth i'r cynllun symud yn ei flaen. • Rydym yn adolygu cynnydd mewn perthynas â'ch cynllun gweithredu ar adeg a gytunir ar y cyd. • Byddwn yn adolygu'n flynyddol faint rydych chi wedi gofyn amdano mewn taliadau grant.	Hyd at £2,000,000 (gan gynnwys unrhyw arian datblygu)
Cyflawni'r cynllun	Blwyddyn 2	• Rydych chi'n dechrau prosiectau Blwyddyn 2 ac yn datblygu prosiectau Blwyddyn 3. • Dylech gyflwyno cynllun gweithredu wedi'i gostio ar gyfer blwyddyn 3 erbyn diwedd blwyddyn 2.	• Rydym yn gwneud taliadau grant mewn ôl-ddyledion yn erbyn ceisiadau talu wrth i'r cynllun symud yn ei flaen. • Rydym yn adolygu cynnydd mewn perthynas â'ch cynllun gweithredu ar adeg a gytunir ar y cyd. • Byddwn yn adolygu'n flynyddol faint rydych chi wedi gofyn amdano mewn taliadau grant.	
Cyflawni'r cynllun	Blwyddyn 3	• Rydych chi'n dechrau prosiectau Blwyddyn 3 ac yn datblygu prosiectau Blwyddyn 4. • Dylech gyflwyno cynllun gweithredu wedi'i gostio ar gyfer blwyddyn 4 erbyn diwedd blwyddyn 3.	• Rydym yn gwneud taliadau grant mewn ôl-ddyledion yn erbyn ceisiadau talu wrth i'r cynllun symud yn ei flaen. • Rydym yn adolygu cynnydd mewn perthynas â'ch cynllun gweithredu ar adeg a gytunir ar y cyd. • Byddwn yn adolygu'n flynyddol faint rydych chi wedi gofyn amdano mewn taliadau grant.	
Cyflawni'r cynllun	Blwyddyn 4	• Rydych chi'n dechrau prosiectau Blwyddyn 4 ac yn cwblhau cynlluniau i gwblhau'r prosiect. • Dylid cwblhau cynigion am reoli a chynnal a chadw ar ôl blwyddyn 5. • Dylid ymrwymo pob cyllid o'r PT i brosiectau erbyn diwedd blwyddyn 4.	• Rydym yn gwneud taliadau grant mewn ôl-ddyledion yn erbyn ceisiadau talu wrth i'r cynllun symud yn ei flaen. • Rydym yn adolygu cynnydd mewn perthynas â'ch cynllun gweithredu ar adeg a gytunir ar y cyd. • Byddwn yn adolygu'n flynyddol faint rydych chi wedi gofyn amdano mewn taliadau grant.	

Amserlen cais Partneriaethau Tirwedd (parhad)

Proses	Amser	Eich Camau Chi	Ein Camau Ni	Grant
Cyflawni'r cynllun	Blwyddyn 5	• Cwblhewch bob prosiect a chwblhewch gynigion am werthuso prosiectau. • Cwblhewch y gwerthusiad cynllun. • Rydych chi'n gwneud eich hawliadau olaf inni am daliad ac yn anfon adroddiad cwblhau a gwerthuso.	• Rydym yn gwneud taliadau grant mewn ôl-ddyledion yn erbyn ceisiadau talu wrth i'r cynllun symud yn ei flaen. • Byddwn yn adolygu a yw Cynllun Gweithredu Gwarchod y Dirwedd wedi'i gyflawni a'i gwblhau.	Hyd at £2,000,000 (gan gynnwys unrhyw arian datblygu)
Gwerthuso	1, 5 a 10 mlynedd ar ôl cwblhau	• Rydym yn gofyn ichi adrodd inni am eich cyflawniadau, ac a ydych chi'n bodloni amodau eich contract. • Parhewch i gydnabod y grant.	• Rydym yn gwneud taliadau grant mewn ôl-ddyledion yn erbyn ceisiadau talu wrth i'r cynllun symud yn ei flaen. • Byddwn yn adolygu a yw Cynllun Gweithredu Gwarchod y Dirwedd wedi'i gyflawni a'i gwblhau.	

Cychwyn arni

Cysylltwch â ni am gyngor ar eich cynigion cynllun cyn ichi ymgeisio gan ddefnyddio'r ffurflen holi cyn ymgeisio. Byddwn yn rhoi gwybod ichi a yw eich cynllun yn debygol o fodloni ein blaenoriaethau am ariannu a'r hyn y dylech ei wneud nesaf i wneud cais i ni.

Cyn ichi ymgeisio, rydym yn eich annog i:

- ystyried yn ofalus a fydd eich cynllun arfaethedig yn bodloni meini prawf a chanlyniadau rhaglen Partneriaethau Tirwedd;
- llenwi'r ffurflen cyn ymgeisio a'i chyflwyno ar-lein neu ei hanfon at eich swyddfa rhanbarth neu wlad yn y post; neu
- gysylltu â'ch swyddfa rhanbarth neu wlad i drafod eich cynigion.

Dengys ein profiad fod ymgeiswyr sydd wedi cael cyngor cyn ymgeisio fel rheol yn llunio gwell ceisiadau na'r rheini sydd heb geisio cyngor. Os ydych wedi cysylltu â ni am arweiniad, byddwn yn cysylltu â chi ac efallai'n trefnu cyfarfod i drafod a ydyn ni'n credu bod eich cynllun arfaethedig yn debygol o fodloni ein blaenoriaethau am y rhaglen hon.

Mae ein gwefan yn cynnwys enghreifftiau o brosiectau a ariannwyd. Mae'n hanfodol eich bod yn darllen yr arweiniad PT hwn, nodiadau cymorth y rownd gyntaf, ac unrhyw ddogfennau arweiniol eraill gan CDL sy'n gysylltiedig â'ch cynllun. Ewch at ein gwefan yn www.hlf.org.uk

Cais y rownd gyntaf

Cyfeiriwch at nodiadau cymorth rownd gyntaf y Partneriaethau Tirwedd wrth lenwi eich ffurflen gais.

Nid ydym yn disgwyl ichi fod wedi gwneud cynllunio manwl am waith a gweithgareddau cyfalaf yn y rownd ymgeisio gyntaf. Fodd bynnag, mae angen eich bod yn deall cwmpas y cynllun yn rhesymol er mwyn sicrhau bod swm yr arian rydych chi'n ei geisio gennym ni yn briodol.

Ar gyfer y rownd hon, fe ddylech fod yn gallu cyflwyno disgrifiad bras o'ch cynllun gan egluro sut mae'n bodloni ein blaenoriaethau a'n meini prawf asesu. Y swm a gynigiwn yn y rownd gyntaf yw'r mwyafswm y byddwn yn gallu ei ddyfarnu os byddwch yn llwyddo yn yr ail rownd. Bydd rhaid ichi ganfod yr holl adnoddau o'ch partneriaeth i gasglu'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer y cais rownd gyntaf.

Yn eich cais rownd gyntaf, byddwn yn asesu:

- a oes gennych weledigaeth glir a realistig o'r hyn yr hoffech ei gyflawni yn eich ardal PT arfaethedig;
- a yw ardal y cynllun cychwynnol rydych chi'n ei chynnig o arwyddocâd treftadaeth ac wedi'i diffinio gan gymeriad tirwedd arbennig (gellir mireinio'r ardal PT yn ystod y gwaith datblygu);
- anghenion y dreftadaeth tirwedd a threftadaeth y cymunedau a'r buddion posibl y gallai cynllun eu cyflawni yn y dyfodol;
- cryfder y bartneriaeth, gan gynnwys y cydbwysedd rhwng grwpiau cymunedol a gwirfoddol a chyrff ac asiantaethau llywodraeth yn ogystal â strwythur;
- a yw eich cynllun yn debygol o gyflawni ein canlyniadau ar gyfer Partneriaethau Tirwedd ac yn cael ei gydbwyso'n gyfartal ar draws y rhain o ran effaith;
- yr angen am y gwaith datblygu a gynigir;
- ansawdd disgwyliedig y gwaith datblygu;
- sut rydych chi'n mynd i gynnwys eraill yn y cyfnod datblygu;
- a yw'r costau datblygu a gynigiwch yn debygol o roi gwerth da am arian;
- pa mor realistig fydd eich costau mwyaf cyffredinol ar gyfer y cynllun, faint rydych chi'n gofyn amdano gan CDL mewn perthynas â hyn, a pha ffynonellau eraill o

arian cyfatebol rydych chi'n debygol o'u ceisio; ac
- a yw eich cynigion yn debygol o gyfrannu at fudd cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd tymor hir (cynaliadwyedd) yr ardal.

Pan fyddwn yn ystyried eich cais fe allem gysylltu â chi am fwy o wybodaeth am eich cynllun.

Cynllunio a datblygu

Os byddwch yn llwyddo yn y rownd gyntaf bydd gofyn ichi ddatblygu eich cynllun a chwblhau'r cyflwyniad ail rownd manwl. Os oes angen cymorth arnoch i lunio manylion eich cynllun, gallwch ofyn inni am grant datblygu hyd at £100,000 yn rhan o'ch cais rownd gyntaf. Mae'n rhaid ichi ddarparu o leiaf 10% o arian cyfatebol o'ch ffynonellau eich hun neu eraill, y mae'n rhaid bod o leiaf 5% ohono'n arian.

Dylech ddisgwyl cymryd rhwng 12 mis a 18 mis (y mwyaf a ganiatawn) i ddatblygu eich cynllun. Mae'n bwysig iawn eich bod yn cyflawni'r cyfnod hwn yn effeithlon a chynhwysfawr yn yr amserlen hon er mwyn cadw diddordeb eich partneriaeth a chymunedau - bydd hyn hefyd yn helpu i sicrhau arian partneriaeth.

Byddwn yn eich helpu gyda chymorth ac arbenigedd priodol gan eich swyddog grantiau a gallwn hefyd benodi mentor. Drwy ein gwefan, byddwch hefyd yn gallu dysgu oddi wrth grantïon sydd wedi llwyddo i gyflawni cynlluniau Partneriaeth Tirwedd.

Gallwch brynu gwasanaethau arbenigol i mewn i gynllunio a datblygu eich cynllun. Rydym wedi llunio arweiniad ar nifer o faterion i'ch helpu i lunio cyflwyniad cynllun o safon. Cyfeiriwch at ein gwefan www.hlf.org.uk am ragor o wybodaeth.

Gallwn ystyried ariannu ystod o waith datblygu i ddatblygu eich cynllun i'r lefel fanwl sydd ei hangen ar gyfer y cyflwyniad ail rownd, gan gynnwys:
- casglu data dechreuol i gefnogi'r broses werthuso;
- adeiladu partneriaethau a chysylltiadau cymunedol yn yr ardal;
- cofnodi a deall anghenion y dirwedd ymhellach;
- asesu cymeriad y dirwedd hanesyddol ymhellach;
- penodi arbenigwyr fel pensaer ag arbenigedd treftadaeth, syrfëwr siartredig, ecolegydd â gwybodaeth arbenigol, hwyluswr cymunedol;
- eich helpu i ddeall anghenion a diddordebau gwahanol grwpiau o bobl a allai elwa ar y cynllun;
- asesu'r ddarpariaeth mynediad yn yr ardal ac archwilio safleoedd allweddol i wella hygyrchedd;
- ymgynghori â'r gymuned;
- ymchwilio i straeon a thraddodiadau lleol â chysylltiad penodol â'r ardal;
- datblygu'r gweithgareddau a fydd yn rhan o'r cynllun;
- datblygu eich cynlluniau ar gyfer y sgiliau a'r hyfforddiant y gellid eu cynnwys yn y cynllun;
- paratoi adroddiadau arbenigol eraill;
- sefydlu systemau monitro a chyfrifyddu i'r cynllun – i'w cael ar eu ffordd yn gynt;
- datblygu Cynllun Gweithredu Gwarchod y Dirwedd (CGGD) wedi'i lywio gan yr holl waith datblygu; a
- chyflogi aelod o staff i'ch helpu i ddatblygu pob elfen o'ch cynllun.

Gallwch hefyd ofyn am gyllid am unrhyw waith arall sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chasglu, trefnu neu ddadansoddi gwybodaeth er mwyn cynllunio eich cynllun a'ch rhaglenni ar gyfer y cyflwyniad ail rownd.

Pan fyddwch wedi cael caniatâd wrthym ni i ddechrau datblygu eich cynllun, byddwn yn talu'r rhandaliad cyntaf hyd at 50% o'ch grant datblygu. Byddwn yn talu gweddill eich grant pan fyddwch yn anfon eich cyflwyniad ail rownd atom ac yn gallu cadarnhau'r hyn a warioch yn ystod y cyfnod datblygu. Gallwn ofyn ichi am adroddiad cynnydd yn ystod cyfnod datblygu eich cynllun.

Os byddwn yn darparu cyllid i'ch helpu i ddatblygu eich cynllun, nid yw'n sicrhau y byddwn yn ariannu eich cynllun PT yn yr ail rownd.

Cyflogi swyddog cynllun Partneriaeth Tirwedd yn ystod y cyfnod datblygu

Mae'n debygol y bydd angen ichi gyflogi rhywun i'ch helpu i reoli a chydlynu'r broses ddatblygu oherwydd maint y gwaith sydd ei angen a'r ymglymiad cymunedol sydd ei angen. Gall hwn fod yn benodiad amser llawn neu ran-amser gan ddibynnu pa mor gymhleth yw eich gwaith arfaethedig a'r adnoddau eraill sydd ar gael. Bydd y swyddog Partneriaeth Tirwedd yn rheoli'r cynllun o ddydd i ddydd ac yn allweddol i'w lwyddiant. Er bydd y partner arwain yn ei gyflogi ac yn rheolwr llinell iddo efallai, dylai fod yn glir o'r dechrau bod y swyddog yn gweithio ar ran y bartneriaeth gyfan i gyflawni'r cynllun ac nid i unrhyw sefydliad unigol. Mae llwyddiant y cyfnod datblygu hefyd yn dibynnu'n gryf ar gefnogaeth i swyddog y Bartneriaeth Tirwedd.

Mae'n debygol y bydd gan y person hwn rôl ganolog mewn adeiladu partneriaethau a chysylltiadau cymunedol ac y bydd yn rhoi ffocws i waith y cynllun. Mae'n bwysig iawn ichi recriwtio swyddog o safon uchel oherwydd swyddog amhrofiadol yw un o'r risgiau mwyaf i gynhyrchu cynllun o safon. Gan ddibynnu ar y fanyleb swydd ar gyfer anghenion eich cynllun penodol, gallai ei waith hefyd gynnwys:

- paratoi meysydd gorchwyl i ymgynghorwyr a gwasanaethau;
- gwneud gwaith arolwg;
- datblygu systemau i storio data;
- rheoli ymgynghorwyr a staff eraill;
- datblygu ymglymiad cymunedol;
- cefnogi cyfarfodydd;
- coladu neu lunio adroddiadau;
- rheoli'r gyllideb;
- monitro cynnydd a chynnyrch i dargedau; a
- pharatoi ceisiadau am gyllid.

Rhaid bod penodiadau'n seiliedig ar gystadleuaeth gyhoeddus (gyda'n rôl ariannu wedi'i chydnabod mewn hysbysebion). Os aelod presennol o staff sefydliad partner yw'r ymgeisydd llwyddiannus, gellir ei secondio i'r cynllun, ond mae'n rhaid ichi ôl-lenwi'r swydd hon ar gyfer cyfnod y secondiad.

Pwyntiau pwysig am grantiau datblygu

Ni all grantiau datblygu:

- dalu am gostau a dibenion sefydliadol craidd eich sefydliad chi nac unrhyw sefydliad arall;
- ariannu'r amser y bydd staff presennol y Bartneriaeth yn ei dreulio'n rheoli'r gwaith datblygu (er gallwch ddefnyddio eich grant am gostau gwasanaethau penodol a godir gan un adran awdurdod lleol ar un arall, sef 'ailgodi');
- gwaith neu weithgareddau cefnogi nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â chynllunio eich cynllun Partneriaeth Tirwedd; a
- thalu costau sy'n gysylltiedig â sicrhau caniatâd cynllunio neu gymeradwyaethau statudol eraill.

Cyflwyniad ail rownd

Ar ôl ichi gael eich cymeradwyaeth rownd gyntaf, bydd angen i'ch partneriaeth wneud gwaith ychwanegol a chynnal ymgynghoriadau ychwanegol i helpu i

gynllunio, datblygu a chostio eich cynllun. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei threfnu a'i chyfleu yn nogfen cyflwyniad yr ail rownd - Cynllun Gweithredu Gwarchod y Dirwedd (CGGD). Nid oes unrhyw ffurflen gais ar wahân ar gyfer yr ail rownd.

Dylai'r CGGD ganfod beth yw blaenoriaethau ac anghenion y dirwedd a'r gymuned yn yr ardal, y ffordd orau a mwyaf priodol o fynd i'r afael â'r rhain ac felly pa raglenni o brosiectau a gweithgareddau y bydd angen ichi eu cyflawni, yn seiliedig ar y wybodaeth ddangosol yn eich cais rownd gyntaf. Cyfeiriwch at yr arweiniad CGGD, sy'n rhoi gwybodaeth am y darnau o waith penodol y bydd yn rhaid ichi eu gwneud, ynghyd â'r wybodaeth y bydd angen ichi ei chyflwyno i gefnogi eich cais.

Yn y ddogfen hon byddwn hefyd yn disgwyl gweld eich cynigion manwl, gyda chynlluniau a chostau amlinellol ar gyfer pob elfen ar gyfer pum mlynedd lawn y cynllun, ond gyda chynlluniau a chostau manwl am y flwyddyn gyntaf o gyflawni o leiaf.

Os byddwch yn llwyddo yn yr ail rownd byddwn yn gwneud dyfarniad llawn i'ch cynllun. Byddwn yn adolygu strwythur rheoli eich cynllun a bydd angen ichi ofyn am ganiatâd ffurfiol i ddechrau.

Cyfeiriwch at *Rheoli eich Grant Partneriaeth Tirwedd* ar ein gwefan i gael gwybod yn llawn sut y bydd eich cynllun yn cael ei fonitro a sut y gwneir taliadau grant.

Dyddiadau cau ac asesiadau

Dyddiad cau'r llwyth ar gyfer ceisiadau rownd gyntaf yw 30 Tachwedd bob blwyddyn ac mae penderfyniadau'n cael eu gwneud gan ein Hymddiriedolwyr y mis Ebrill canlynol mewn un llwyth bob blwyddyn.

Gall ymweliad gan staff, aelodau Pwyllgor neu Ymddiriedolwyr ffurfio rhan o'r broses asesu ar unrhyw adeg. Gallwn ofyn am gyngor gan asiantaethau statudol neu gynghorwyr eraill. Yn y rownd gyntaf bydd ein Hymddiriedolwyr yn penderfynu a ddylid cynnig grant datblygu a neilltuo'r cyllid ar gyfer eich cynllun, i'w ystyried yn yr ail rownd.

Yn yr ail rownd byddwn yn asesu eich cynigion datblygedig. Byddwch chi'n cyflwyno eich cyflwyniad ail rownd i'r un tîm rhanbarth neu wlad a asesodd eich cais rownd gyntaf. Bydd yn gwerthuso eich cynigion a'ch costau eto. Bydd angen hefyd ichi gadarnhau eich rhaglenni a'ch costau rownd gyntaf.

Os ydych wedi datblygu eich cynllun yn llawn yn unol â'n harweiniad ac unrhyw amodau y gallem fod wedi'u gwneud yn y rownd gyntaf, bydd y broses asesu ail rownd yn cymryd pedwar mis. Bydd y pwyllgor gwlad neu ranbarth perthnasol yn ystyried eich cynigion ar gyfer yr ail rownd. Os ydych wedi darparu'r holl wybodaeth y gofynasom amdani a'n bod yn fodlon eich bod wedi bodloni canlyniadau a meini prawf y PT ar gyfer y rhaglen, byddwn yn cynnig dyfarnu grant llawn ichi a neilltuwyd gennym ar eich cyfer yn y rownd gyntaf.

Ni allwch ymgeisio am gynnydd yn swm y grant y cytunasom i'w neilltuo yn y rownd gyntaf. Os bydd eich costau cynllun yn cynyddu yn ystod y gwaith datblygu, bydd rhaid ichi ganfod ffynonellau eraill o arian cyfatebol. Gosodwyd cyfanswm y grant y gallwn ei ddyfarnu o dan y cynllun hwn ar £2 filiwn o fwyafswm, gan gynnwys arian datblygu.

Gwneud penderfyniadau

Wrth wneud penderfyniad, os oes mwy o gynlluniau y gellir eu cefnogi (mewn geiriau eraill, cynlluniau sy'n bodloni ein blaenoriaethau) na'r gyllideb sydd ar gael, bydd ein penderfynwyr yn defnyddio eu synnwyr i ddewis pa geisiadau i'w cefnogi.

Fe allent ystyried pethau perthnasol eraill, er enghraifft (heb fod mewn unrhyw drefn bwysigrwydd benodol):

- gwerth am arian - ystyried y buddion cyffredinol, pa gynlluniau fydd yn cael yr effaith fwyaf ac yn rhoi'r cyfle inni wneud y gwahaniaeth mwyaf am ein buddsoddiad;
- yr achos dros ariannu, gan gynnwys y risgiau neu'r cyfleoedd cysylltiedig o beidio â chefnogi cynllun;
- yr angen am ein cyllid yn benodol ac ystyried a ydych wedi archwilio'n llawn bob ffynhonnell bosibl o gyllid arall;
- a fydd cynllun yn ychwanegu gwerth drwy adeiladu partneriaethau;
- cynlluniau o werth eithriadol a phwysigrwydd parhaol; a
- faint o gyllid mae ardal wedi'i gael eisoes.

Sut byddwn yn monitro eich prosiect

Monitro Cynllun

Byddwn yn anfon atoch *Rheoli eich Grant Partneriaethau Tirwedd* sy'n rhoi arweiniad ar sut i fonitro eich cynllun, er mwyn ichi gadw rhoi gwybod inni am ei gynnydd a pha mor dda mae'n bodloni ei nodau. Gallwn benodi rhywun i'n helpu i fonitro eich cynllun. Byddwn hefyd yn adolygu cynllun gweithredu eich cynllun yn flynyddol.

Os dyfarnir grant ail rownd byddwn yn eich awdurdodi i ddechrau gwaith pan fyddwn wedi llofnodi'r contract ar y cyd a'i ddyddio a'ch bod wedi llenwi'r gwaith papur angenrheidiol. Bydd eich tîm rhanbarth neu wlad yn rhoi'r gymeradwyaeth i ddechrau prosiectau rhaglen mewn blynyddoedd diweddarach. Byddwn yn gofyn ichi anfon manylion llawn y prosiectau hyn cyn dechrau bob blwyddyn ar ffurf cynllun gweithredu blynyddol. Ni chewch ddechrau gwaith ar y prosiectau hyn nes ichi gael ein caniatâd ysgrifenedig.

Oni aflonyddir llawer ar eich cynllun neu raglenni oherwydd ffactorau y tu hwnt i'ch rheolaeth, byddwn yn disgwyl ichi ddefnyddio'r arian rydych wedi'i raglennu ar gyfer pob blwyddyn yn y flwyddyn honno. Ni fyddwn fel arfer yn disgwyl trosglwyddo arian i unrhyw flynyddoedd eraill. Felly, mae'n bwysig ichi ystyried eich rhaglenni gwaith a'ch llif gwaith yn ofalus yn yr ail rownd, o ran yr hyn y gallwch ei gyflawni ar gyfer pob un o flynyddoedd y cynllun. Bydd angen ichi sefydlu system effeithiol i reoli'r rhaglenni mewn cyfnod cynnar. Gallwch gynnwys costau gwasanaethau gweinyddol neu ariannol yng nghostau gorbenion eich cynllun.

Talu grantiau

Dim ond wrth ichi wneud y gwaith ar brosiectau cymwys yn eich cynllun y byddwn yn talu eich grant. Bydd angen ichi anfon atom geisiadau rheolaidd am daliad wedi'u cefnogi gan anfonebau neu dystysgrifau talu sy'n dangos faint o'r gwaith rydym wedi cytuno i'w ariannu sydd wedi cael ei wneud. Disgwyliwn gael ceisiadau rheolaidd am daliad grant fel y cytunir â'ch swyddog grantiau.

Byddwn yn archwilio eich cais am daliad grant ac yn anelu at dalu ein cyfran ganran sefydlog o'r costau gwirioneddol ymhen tair wythnos. Gan na allwn dalu ein grant nes bod y gwaith wedi'i wneud, efallai bydd angen ichi dalu'r anfonebau a gewch cyn y gallwch ofyn am eich grant. Mae hyn yn golygu bod rhaid ichi ystyried yn ofalus sut i dalu'r costau hyn nes ichi gael eich grant. Os ydych chi'n credu na fyddwch chi'n gallu talu'r costau hyn, mewn achosion prin fe allem dalu rhywfaint o'ch grant ymlaen llaw.

Cyn inni dalu 10% olaf eich grant ichi, bydd angen eich bod wedi cyflawni eich cynllun PT ac anfon eich adroddiad cwblhau a gwerthuso atom. Bydd angen ichi gyllidebu'n ofalus am ran olaf eich cynllun.

Cwblhau a gwerthuso eich cynllun

Byddwn yn disgwyl adborth gwerthusiad gan bob cynllun a ariannwn ar ffurf adroddiad cwblhau a gwerthuso. Mae hwn yn cynnwys tystiolaeth ansoddol a meintiol ac yn adrodd hanes y cynllun. Dylech gynnwys cynifer o bobl â phosibl wrth werthuso eich cynllun. Dylech ddechrau casglu data dechreuol ar gyfer eich adroddiad cwblhau a gwerthuso yn ystod y cyfnod datblygu. Bydd cael gwaelodlin, a chasglu'r un data ar ddiwedd eich cynllun, yn eich galluogi i ddangos y 'pellter a deithiwyd'. Gweler ein harweiniad *Gwerthuso eich prosiect CDL* i gael gwybod mwy am yr hyn y gallech ei wneud.

Hyrwyddo a chydnabod eich grant

Mae'r arian a ddosbarthwn yn cael ei godi drwy'r Loteri Genedlaethol. Cawn un rhan o chwech o arian y Loteri sy'n mynd i'r 'achosion da' ac mae'n bwysig ein bod yn rhoi cymaint o wybodaeth â phosibl i chwaraewyr y Loteri a'r cyhoedd am y grantiau a wnawn. Mae hyn yn unol â'n hymrwymiad i fod yn agored am ein cyfrifoldebau a'n gweithrediadau.

O ganlyniad, gallwn gyhoeddi, ar ein gwefan, y ffaith eich bod wedi gwneud cais inni, yr hyn rydych wedi ymgeisio amdano a manylion unrhyw benderfyniad a wnaethom am eich cais. Gallwn hefyd wneud y wybodaeth hon ar gael i'r cyfryngau. I wneud hyn byddwn yn defnyddio gwybodaeth rydych wedi'i rhoi inni yn eich cais.

Efallai bydd adegau pan fyddai'n well gennych petawn yn oedi cyn cyhoeddi gwybodaeth am eich cais. Byddwn yn ystyried hyn gyda chi ar y pryd.

Cyhoeddi a chydnabod y cynllun

Mae cefnogaeth y cyhoedd yn hanfodol i sicrhau bod buddsoddiad y Loteri mewn treftadaeth yn parhau yn y tymor hir. Rydym eisiau i werth a buddion arian y Loteri i dreftadaeth gael eu deall a'u gwerthfawrogi'n eang.

Os byddwn yn rhoi grant i chi, mae'n rhaid ichi ei gyhoeddi a'i gydnabod. Gallwn gyfrannu at y costau dan sylw os ydych wedi'u cynnwys yng nghyllideb eich prosiect. Byddwn yn disgwyl ichi gyhoeddi a hyrwyddo eich prosiect mor eang â phosibl, i:

- sicrhau bod pobl yn cael cyfleoedd i gymryd rhan;
- cyfrannu at ei ddyfodol; a
- sicrhau bod cyfraniad y Loteri Genedlaethol yn cael ei gydnabod.

Rhaid bod eich cydnabyddiaeth o'ch grant yn glir i bob ymwelydd sy'n defnyddio eich safle, ar gyhoeddiadau neu arddangosiadau, neu i bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau. Dylai hyn fod ar waith cyn gynted ag y cadarnhawn ddyfarniad yn yr ail rownd a chyn i'r gwaith ddechrau. Mae'n rhaid ichi sicrhau eich bod yn cydnabod eich grant yn gyhoeddus yn unol â *Rheoli eich grant Partneriaethau Tirwedd* ac amodau lleiaf a nodir yn ein harweiniad *Sut i gydnabod eich grant*. Dylech wneud hyn drwy ddefnyddio'r `bysedd wedi croesi' a logo CDL. Byddwn yn cyflenwi'r rhain ichi fel un darn o waith celf.

Gwybodaeth arall am eich cais

Rhyddid Gwybodaeth

Mae gennym ddyletswydd i gadw at Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Pan lofnodwch y datganiad ar ddiwedd y ffurflen gais, rydych chi'n cadarnhau nad ydych yn gwrthwynebu o gwbl os rhyddhawn adrannau 3, 4 a 5 o'r ffurflen gais i unrhyw un sy'n gofyn eu gweld. Os oes unrhyw wybodaeth yn adrannau 3, 4 a 5 o'r ffurflen nad ydych eisiau inni ei

rhyddhau'n gyhoeddus, dywedwch hyn yn y lle a ddarperir ac egluro eich rhesymau. Byddwn yn ystyried y rhain pan fyddwn yn ymateb i unrhyw gais am gael gweld yr adrannau hynny. Fel arall, byddwn yn rhyddhau adrannau 3, 4 a 5 i'r cyhoedd os gofynnir inni wneud. Gellid gofyn hefyd inni ryddhau gwybodaeth arall sydd mewn mannau eraill yn y ffurflen a byddwn yn ymateb i'r ceisiadau hyn ar ôl ystyried eich hawliau a'ch disgwyliadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 1998. Yn yr achosion hynny, byddwn bob amser yn ymgynghori â chi gyntaf.

Diogelu Data

O dan Ddeddf Diogelu Data 1998, byddwn yn prosesu gwybodaeth bersonol mewn perthynas â'ch sefydliad, ei swyddogion a'i staff neu unrhyw un arall y cyfeirir ato yn eich cais, ar gyfer:

- asesu eich cais grant a sut yr ymdriniwn ag ef;
- trin telerau ein grant;
- rhannu gwybodaeth gyda'n harbenigwyr a'n monitoriaid;
- eich cadw mewn cysylltiad â'n gwaith;
- cyhoeddi gwybodaeth am eich cais;
- ymchwil cysylltiedig â'ch cais;
- rhannu gwybodaeth gyda dosbarthwyr Loteri neu sefydliadau gwneud grantiau eraill a sefydliadau eraill a nodir yn ofalus (fel grwpiau arfer gorau) a fydd eisiau cysylltu â chi efallai am eich cais neu brosiect; a
- dibenion cyfreithiol neu reoleiddiol eraill, neu ddibenion eraill sy'n rhesymol gysylltiedig â gwneud grantiau (fel arolygon cwsmeriaid).

Cwynion

Os ydych yn anfodlon â'r gwasanaeth a gawsoch, cysylltwch â'r swyddfa yr ymdrinioch â hi gyntaf. Bydd yn ceisio gwneud iawn am bethau. Os nad ydych yn fodlon â'r ymateb a gewch, gallwch fynd â hyn ymhellach drwy ysgrifennu at ein cyfarwyddwr. Mae copi o'n Gweithdrefn Gwyno ar gael o'n gwefan neu unrhyw un o'n swyddfeydd.

Atodiad
Partneriaethau Tirwedd a phrosesau ymgeisio CDL

Proses	Rownd gyntaf	Cyfnod datblygu	Ail rownd
Ffurflen gais rownd gyntaf PT	Llenwch y ffurflen gais rownd gyntaf		
Bwrdd PT – unigolion a enwyd gan y bartneriaeth sydd ag awdurdod i gynghori ar gyflawni cynllun PT	Cadarnhawyd gan unigolion ag awdurdod o'u grwpiau cynrychiadol i ddatblygu i Gyfnod 2.	Datblygu a sefydlu cynrychiolaeth bwrdd PT	Cadarnhau aelodau Bwrdd PT terfynol i gynrychioli'r Bartneriaeth Tirwedd.
Ardal PT	Nodwch yr ardal y bydd eich PT yn canolbwyntio arni, nid oes rhaid nodi union ffiniau ar hyn o bryd. Dangoswch ffin y PT i 1:50,000 o leiaf ac mewn lliw. Mewn copi caled ac wedi'i ddigido (gweler nodiadau cymorth y rownd gyntaf). Darparwch gyfeirnod Grid 6 ffigur ar gyfer canol y cynllun.	Datblygwch ac ymgynghorwch a chadarnhau ffin yr ardal PT. Mae hyn yn debygol o newid gyda'r Asesiad Cymeriad PT, astudiaethau eraill ac ymgynghoriad cymunedol a rhanddeiliaid.	Cadarnhewch ffin yr ardal PT. Darparwch gopïau diwygiedig o'r ffiniau, mewn copi caled a ffin wedi'i digido ar CD Ail-gadarnhewch gyfeirnod Grid 6 ffigur ar gyfer canol y cynllun.
Partneriaethau Tirwedd Asesiad Cymeriad	Os yw Asesiad Cymeriad Tirwedd yn bodoli ar gyfer yr ardal PT arfaethedig, darparwch gopi/detholiadau. Os nad oes ACT, darparwch gyfarwyddiadau ar gyfer astudiaeth i'w chynnal yn y cyfnod datblygu.	Cadarnhewch fod gan yr ACT presennol ddigon o fanylion i gynllunio'r PT. Os na, dylech gomisiynu a chynnal ACT ar gyfer yr ardal PT. Defnyddiwch yr astudiaeth hon i lywio a chadarnhau'r ffin PT.	Darparwch ACT fel dogfen ategol.
Cyfranogiad ac ymgynghoriad cyhoeddus	Darparwch unrhyw dystiolaeth o gefnogaeth neu ymgynghoriad cyhoeddus sy'n berthnasol i'r Bartneriaeth Tirwedd.	Ymgynghorwch â rhanddeiliaid a chymunedau lleol i sicrhau bod pobl leol â diddordeb yn y gwaith cynllunio ac yn cael eu cynnwys ynddo, ac yn gwneud penderfyniadau yn y Bartneriaeth Tirwedd. Cyfeiriwch at *Meddwl am Gyfranogiad Cymunedol.*	Parhewch gyfranogiad cymunedol wrth. gyflawni'r cynllun
Ymchwil ac arolwg ategol ychwanegol	Nodwch unrhyw ymchwil a gwaith arolwg ychwanegol sydd ei angen i lywio gwaith cynllunio a nodi anghenion y dreftadaeth tirwedd ac anghenion y cymunedau. Darparwch gyfarwyddiadau a manylebau llawn.	Rheolwch neu gwnewch y gwaith ymchwil ac arolwg ategol a fydd yn helpu i lywio'r cynllun PT.	Darparwch wybodaeth ategol ychwanegol yn ôl y gofyn.

Partneriaethau Tirwedd a phrosesau ymgeisio CDL (parhad)

Proses	Rownd gyntaf	Cyfnod datblygu	Ail rownd
Cynllun Mynediad Gwarchod y Dirwedd (CMGD)	Cynlluniwch waith cynhyrchu CMGD, pwy sydd am lunio hwn, sut y caiff ei reoli a'i gyflawni. Cyfeiriwch at yr arweiniad CMGD ar gyfer y cyflwyniad ail rownd.	Dadansoddwch beth yw cyflwr yr ardal PT; nodwch nodweddion allweddol ac anghenion a gwerthoedd y gymuned leol. Datblygwch a chadarnhewch y prosiectau priodol sy'n bodloni pedair blaenoriaeth y rhaglen PT a gweledigaeth PT. Cyfeiriwch at *Cynllunio Gweithgareddau mewn Prosiectau Treftadaeth*.	Lluniwch y CMGD gan ddilyn yr arweiniad a ddarperir. Tynnwch yr holl waith ynghyd a wnaethpwyd yn y cyfnod datblygu. Cadarnhewch brosiectau sy'n bodloni pedair blaenoriaeth y rhaglen PT a gweledigaeth PT. Dylech gynnwys staffio, amserlenni, costiadau ariannol a meysydd gorchwyl llawn.
Datblygu'r cynllun a chostau	Darparwch fanylion a chostau llawn am y gwaith rydych chi'n ei gynnig mewn datblygiad, gan gynnwys llunio Cynllun Gweithredu Gwarchod y Dirwedd (CGGD).	Gwnewch waith datblygu, gan gynnwys llunio'r CGGD (prif gyflwyniad yr ail rownd) a rhowch y wybodaeth ategol ychwanegol y gofynnir amdani.	
Amserlen Cynllun	Lluniwch amserlen, yn llawn ar gyfer y cyfnod datblygu ac yn amlinellol ar gyfer cyflawni'r cynllun.	Cynlluniwch a datblygwch amserlen ar gyfer cyflawni. Yn gwbl fanwl ar gyfer Blwyddyn 1 ac mor fanwl â phosibl ar gyfer blynyddoedd 2-5.	Cadarnhewch amserlen y cynllun, yn gwbl fanwl ar gyfer Blwyddyn 1 ac mor fanwl â phosibl ar gyfer Blynyddoedd 2-5.
Meysydd gorchwyl neu fanylebau am waith i'w wneud gan ymgynghorwyr neu gynghorwyr proffesiynol ar gyfer y cyfnod datblygu	Dylech gynnwys meysydd gorchwyl prosiect cwbl fanwl, disgrifiadau swydd, manylebau proffesiynol a gweithdrefnau caffael sy'n ymwneud â'r cyfnod datblygu.	Comisiynwch a chwblhewch waith i lywio'r CGGD a'r cyflwyniad ail rownd.	
Manyleb swydd i'r swyddog PT ar gyfer y cyfnod datblygu	Disgrifiad swydd llawn, galluoedd a gweithdrefn recriwtio i'r swyddog PT i'w gyflogi ar gyfer y cyfnod datblygu.	Recriwtio staff ar gyfer y cyfnod datblygu.	
Meysydd gorchwyl neu fanylebau am waith i'w wneud i gyflawni'r cynllun PT.		Datblygwch feysydd gorchwyl/manylebau prosiect llawn/proffesiynol ar gyfer blwyddyn 1 a drafftiau i'w cymeradwyo ymlaen llaw ar gyfer blynyddoedd 2-5.	Cadarnhewch feysydd gorchwyl/manylebau prosiect llawn/proffesiynol ar gyfer Blwyddyn 1 a drafftiau i'w cymeradwyo ymlaen llaw ar gyfer Blynyddoedd 2-5.

Partneriaethau Tirwedd a phrosesau ymgeisio CDL (parhad)

Proses	Rownd gyntaf	Cyfnod datblygu	Ail rownd
Copi o'ch cytundeb partneriaeth	Cytundeb drafft neu amlinellol, y partneriaid sy'n rhoi awdurdod o leiaf i'r corff arwain/unigolyn a enwir i wneud y cais rownd gyntaf a chael cyllid am y cyfnod datblygu. Partneriaid Arwain i gyflawni'r cynllun cyfan, dylid eu cytuno ar yr adeg hon.	Datblygu partneriaeth, sicrhau bod pob partner wedi cytuno ac yn deall yr ymrwymiad	Cwblhau'r cytundeb partneriaeth. Erbyn y cyflwyniad ail rownd.
Siart sy'n dangos y strwythur rheoli ar gyfer cyflawni'r cynllun	Siart sy'n dangos y strwythur rheoli a gadarnhawyd ar gyfer y cyfnod cynllunio datblygu. Strwythur rheoli amlinellol ar gyfer cyflawni ar ôl yr ail rownd.	Datblygu strwythur rheoli ar gyfer cyflawni'r cynllun.	Cadarnhau strwythur rheoli ar gyfer cyflawni'r cynllun.
Monitro a gwerthuso	Amlinellu cynnig ar gyfer monitro cynnyrch a chanlyniadau'r PT ac ar gyfer gwerthuso effaith a buddion y Cynllun.	Datblygu cynigion am fonitro a gwerthuso'r Cynllun PT. Cyfeiriwch at arweiniad CDL *Gwerthuso eich prosiect CDL*.	Cadarnhau cynigion am fonitro a gwerthuso eich Partneriaeth Tirwedd.